# Astudiaeth Ddichonoldeb Parth Cartrefi Ysgol San Helen a Stryd Vincent

## Gorffennaf 2006

Ysgrifennwyd gan J Bevan, V Butler a G Gibson

Urban & Rural Design Landscape & Architecture
sylfaen cynefin
Making Places with Communities

castle communities first cymunedau yn gyntaf

City and County of Swansea

Children & Young People Partnership

Barnardo's Cymru

# *Tabl Cynnwys*


| | | |
|---|---|---|
| 1: | Rhesymeg a Methodoleg y Prosiect | 4 |
| 2: | Y Ddarpariaeth Awyr Agored Bresennol a'r Defnydd a Wneir ohoni gan Blant Lleol | 10 |
| 3: | Materion Datblygu Posib ar gyfer Iard Chwarae'r Ysgol Stryd Vincent | 14 |
| 4: | Cynigion Allweddol, Ystyriaethau Ymarferol | 20 |
| | Awgrymiadau'r Plant ar gyfer Datblygu Iard Chwarae'r Ysgol | 22 |
| | Cynigion – Gwelliannau Stryd: Parth Cartrefi Stryd Vincent | 23 |
| | Parthau Cartrefi: Disgrifiad | 25 |
| | Ystyriaethau Ymarferol | 26 |
| | Rheoli a Chynnal a Chadw | 28 |
| | Nodiadau Casgliadol | 29 |
| | Atodiadau | 31 |


## Cydnabyddiaeth


Comisiynwyd yr astudiaeth ddichonoldeb hon gan Bartneriaeth Plant Dinas a Sir Abertawe a Chymunedau'n Gyntaf Ward y Castell ar y cyd ag Ysgol Gynradd San Helen.



Cesglir ac addasir Cynlluniau Arolwg Ordnans yn yr adroddiad hwn o luniadau a atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded Dinas a Sir Abertawe 100013350.

Ac eithrio'r rhai a nodir fel arall, mae'r holl ddelweddau yn hawlfraint Sylfaen Cynefin Cyf, Barnado's Cymru, Partneriaeth Plant Dinas a Sir Abertawe a Chymunedau'n Gyntaf Ward y Castell.


### Nodiadau

#### Lluniadau Dangosol

Mae'r lluniadau a'r brasluniau yn yr adroddiad a'r byrddau cyflwyno'n ddangosol yn unig, ac nid ydynt i raddfa bob tro. Nid 'Lluniadau Cynhyrchu' ydynt. Mae'r cynlluniau'n ganlyniad ymgynghori a datblygu er mwyn sicrhau bod y cynigion yn bosib ac yn dderbyniol. Cyn gweithredu, bydd angen ymgynghori llawer mwy manwl gyda thrigolion a buddiolwyr eraill.

#### Perchnogaeth Tir

Mae'r rhan fwyaf o'r tir, er nad y cyfan, a ddangosir yn y cynlluniau dangosol fel tir yr adeiladwyd arno, yn eiddo i'r awdurdod lleol.

# *1: Rhesymeg a Methodoleg y Prosiect*

## Crynodeb o'r Briff Ymchwil

Comisiynwyd Sylfaen Cynefin (y practis dylunio cymunedau) a thîm ymchwil a pholisi Barnado's Cymru gan Bartneriaeth Plant Dinas a Sir Abertawe a Chymunedau'n Gyntaf Ward y Castell i ymgymryd ag ymchwil ddichonoldeb i chwarae yn yr awyr agored a gofod cymunedol yn ardal Sandfields Abertawe. Yr amcan ar gyfer talu am yr ymchwil hon oedd i'r ddau sefydliad yma weithio mewn partneriaeth gydag ysgol San Helen i ddarganfod:

- ***beth yw barn plant, yr ysgol, pobl ifanc leol a thrigolion lleol am y cyfleoedd chwarae presennol***
- ***pa gyfleoedd a phryderon a allai godi ynghylch sefydlu cyfleusterau awyr agored cymunedol yn ardal Stryd Vincent***

Mae'r ymchwil ddichonoldeb yn adeiladu ar ddwy astudiaeth gymunedol flaenorol – 'Astudiaeth o Strydoedd, Gofodau Cyhoeddus ac Adnoddau Cymunedol' (2005) a wnaed gan Sylfaen Cynefin ac 'Adroddiad Ymchwil Prosiect Cenhedlaeth 2020' (2005) a wnaed gan dîm polisi ac ymchwil Barnado's Cymru.

## Sefydlu'r Angen am Ddarpariaeth Chwarae Awyr Agored

Un o nodweddion amlycaf y ddwy astudiaeth gymunedol yn Sandfields Abertawe yw bod pob plentyn a phreswyliwr bron wedi nodi'r diffyg affwysol o ddarpariaeth chwarae ystyrlon neu hwylus a bod diffyg sylweddol o ardaloedd awyr agored diogel i bobl ifanc o bob oed.

Dywed adroddiad ymchwil Cenhedlaeth 2020 (2005),

> ***"Cyfleoedd chwarae oedd blaenoriaethau pwysicaf y plant a chyfeiriwyd at y diffyg cyfleusterau chwarae ganddynt ym mhob sesiwn."***

Yn Adroddiad Cymunedau'n Gyntaf, Astudiaeth o Strydoedd, Gofodau Cyhoeddus ac Adnoddau Cymunedol, ar gymuned Sandfields, amlygwyd yr angen am:

> ***"Gyfleusterau cymunedol dan do ac awyr agored, yn arbennig mannau chwarae a 'gwyrddni' – gan fod y rheiny'n amlwg yn absennol yn strydluniau tynn Sandfields."***

Ledled Prydain, mae ysgolion, grwpiau trigolion ac awdurdodau lleol yn chwilio mwyfwy am y canlynol:

- ffyrdd o wneud strydoedd ger ysgolion yn fwy diogel i gerddwyr, yn arbennig i blant
- gwella amgylchfyd tiroedd ysgolion
- annog rhannu adnoddau ysgolion gyda'r cymunedau

Yng Nghymru, mae'r tri cham hwn yn cael eu datblygu drwy ddogfennau polisi amrywiol a chynlluniau gweithredu polisïau. Yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Polisi Chwarae, dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru,

> ***"Mae ysgolion yn cael eu hannog yn frwd i ddatblygu ffocws cymunedol ac agor eu meysydd chwarae neu ganiatáu defnyddio rhan o'u tiroedd y tu allan i oriau ysgol fel adnoddau chwarae. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle mae meysydd chwarae neu fannau agored yn brin".***

Mae Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru, Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae ac i raddau llai, Cynllun Gweithredu'r Cynllun Bwyd a Ffitrwydd 5 Mlynedd, oll yn trafod pwysigrwydd chwarae plant yn eu cymunedau a phwysigrwydd strydoedd mwy diogel drwy arafu traffig a chreu parthau cartrefi.

Wrth ddilyn canlyniadau'r astudiaethau cymunedol blaenorol, ac o fewn y Fframweithiau Polisi a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi ymchwilio i ymarferoldeb pennu parth cartrefi ynghyd â galluogi'r gymuned i ddefnyddio iard yr ysgol. Byddai hyn yn cyflwyno cynlluniau datblygu ar gyfer prosiect cyffrous a newydd i Ddinas a Sir Abertawe.



Cynllun Sandfields gydag Ysgol San Helen wedi'i marcio mewn glas yn y canol.

Dangosir cyfleusterau chwarae â symbolau gwyrdd:
- ardal chwarae Stryd Recorder i'r dwyrain,
- 'the bombs' ar Stryd Madog yn y pen uchaf
- y traeth islaw, a
- Pharc Victoria oddi ar y cynllun i'r gorllewin.

# Dulliau ac Ymchwil Dylunio

Yn y gwaith ymchwil ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb, casglwyd barn trigolion ardal Sandfields, plant sy'n mynd i ysgol San Helen, plant sy'n byw yn ardal Sandfields sy'n mynd i ysgolion eraill, a phobl ifanc sy'n byw ac yn cwrdd yn yr ardal. Buom yn siarad yn benodol â gwahanol bobl yng nghymuned Sandfields er mwyn darganfod beth oedd eu barn ar y materion canlynol:

- Pa ddarpariaeth awyr agored sydd ar gyfer y gymuned hon, ac yn arbennig, ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc?
- Petai adnoddau cymunedol awyr agored yn cael eu cyflwyno yn yr ysgol ac yn Stryd Vincent, sut gellid datblygu cynigion o'r fath a pha bryderon fyddai'n codi ynghylch datblygiadau o'r fath?

# Cyrraedd y Poblogaethau Targed

Defnyddiwyd y dulliau canlynol er mwyn mynd ar drywydd y cwestiynau hyn gyda rhannau gwahanol o'r boblogaeth.

## *1. Cyrraedd Plant Ysgol San Helen*

Buom yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn un, pedwar a phump yn ysgol San Helen er mwyn darganfod yr hyn y byddent yn ei hoffi yn ei iard ysgol, pa mor aml y maent yn defnyddio parciau lleol gyda'u teuluoedd a'u barn ynghylch datblygu'r iard chwarae'n ofod cymunedol awyr agored, a fyddai ar agor gyda'r nos ac ar benwythnosau. Gofynnwyd iddynt hefyd sut gallai'r stryd y tu allan i'w hysgol fod yn fwy diogel ac yn lle mwy deniadol. Buom yn gweithio gyda thua 90 o ddisgyblion i gyd (amcangyfrif yn unig oherwydd absenoldeb ac amrywio o ran presenoldeb oherwydd gweithgareddau eraill yr ysgol). Buom yn gweithio unwaith yr wythnos am bedair wythnos mewn grwpiau ffocws bach gyda gweithgareddau a barai tua 20 munud. Roedd hyn yn ein galluogi i siarad â'r plant a datblygu eu syniadau. Defnyddiwyd cymysgedd o bypedau, celf a ffotograffau i gael barn y plant, gan ddefnyddio dulliau cofnodi cadarn i gael casgliad a dadansoddiad da. Er mwyn sicrhau bod y plant yn deall bod eu syniadau'n cyfrannu at waith ymchwil, defnyddiwyd ffurflenni caniatâd mewn iaith syml.

## *2. Cyrraedd Plant sy'n Byw yn yr ardal ond yn mynd i Ysgolion eraill*

Bu tîm chwarae Dinas a Sir Abertawe'n gweithio gyda'r ymchwilwyr ar fws chwarae'r Tardis y tu allan i ysgol San Helen am ddwy noson er mwyn:

- galluogi'r plant i chwarae tra bod yr ymchwilwyr yn siarad â'u rhieni
- siarad â'r plant a'u rhieni nad ydynt yn mynd i ysgol San Helen
- gweithredu fel canolfan wrth gynnal ymchwil allgymorth gyda thrigolion lleol.

Cyflawnwyd yr holl amcanion hyn drwy ddefnyddio'r bws chwarae fel dull o estyn i'r gymuned. Buom yn siarad â chyfanswm o 37 o blant. Roedd yn well gan 19 ohonynt siarad yn anffurfiol â ni wrth wneud gweithgareddau ar y bws yn hytrach na rhoi gwybodaeth fanwl ysgrifenedig i ni. Cofnodwyd y wybodaeth a gafwyd o'r sgyrsiau hyn gan yr ymchwilwyr ar ddiwedd y sesiynau gweithgaredd a'i chynnwys yn y dadansoddiad cyffredinol. Cwblhaodd 18 o'r plant ffurflenni'r holiaduron yn ogystal â siarad â ni am eu syniadau a'u pryderon am ardal parth cartrefi. Mae'r wybodaeth a gafwyd gan y 18 plentyn yma wedi'i chynnwys yn y canfyddiadau ond hefyd wedi'i chofnodi mewn tablau yn Atodiad 1. Cafwyd mwy o wybodaeth gan ferched na bechgyn oherwydd roedd yn well gan y bechgyn chwarae ar y bws na siarad.

## 3. Cyrraedd Trigolion a Rhieni

Roedd defnyddio'r bws chwarae yn y gymuned wedi'n galluogi i siarad â thrigolion Vincent Street, pobl a gerddai heibio a rhieni'r plant a oedd am chwarae ar y bws. Roedd hefyd yn gyfle i ni ymwneud â rhieni o leiafrifoedd ethnig a du. [Roedd un o'r mamau wedi cael y profiad o fyw yn un o gynlluniau parthau cartrefi a gyflwynwyd yn ddiwedd ym Manceinion. Roedd hi'n gefnogol iawn i'r cynigion].

Enghreifftiau o barthau cartrefi a gwblhawyd yn ddiweddar, Northmoor Housing, Manceinion

Buom yn siarad â 40 o oedolion, y ceir dadansoddiad rhifol ohonynt yn Atodiad 2. Defnyddiwyd byrddau arddangos yn y stryd ac ar y bws i'r oedolion weld ffotograffau o barthau cartrefi eraill ym Mhrydain ac Ewrop ac ymateb i gynigion dylunio a luniadwyd. Holwyd yr oedolion gan ddilyn sgript cyfweliad lled strwythuredig a luniwyd ymlaen llaw a oedd yn cynnwys 5 cwestiwn syml. Ysgrifennwyd nodiadau manwl yn syth ar ôl pob sgwrs.

I sicrhau ein bod yn siarad â chynifer o drigolion Stryd Vincent â phosib, cafwyd canfasio o ddrws i ddrws yn y stryd a phen uchaf Heol Burrows, gan siarad â'r trigolion os oedd yn bosib a dosbarthu taflenni gwybodaeth am y prosiect. Defnyddiwyd yr un sgript cyfweliad lled strwythuredig ar gyfer y gwaith o ddrws i ddrws a ddefnyddiwyd ar y bws Tardis.

## 4. Cyrraedd Pobl Ifanc sy'n Byw yn yr ardal ac sy'n Cyfarfod yn Sandfields

I sicrhau ein bod yn cynnwys barn pobl ifanc yn yr astudiaeth, gwnaethom ymchwil allgymorth yn y strydoedd. Gyda help 3 swyddog chwarae o dîm chwarae Dinas a Sir Abertawe, aethom fel parau ymchwil o gwmpas ardal Sandfields i siarad â phlant a phobl ifanc a chwaraeai ac a grynhoai ar y strydoedd a'r parciau ynghylch yr astudiaeth. Er diogelwch y plant a'r gweithwyr, roedd gennym weithdrefnau llym ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys systemau cefnogaeth ffôn gyda'n sefydliadau, cardiau adnabod, gweithdrefnau amddiffyn plant a llwybrau cytunedig. Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc lofnodi ffurflenni caniatâd ac yna fe'u holwyd yn anffurfiol, gan gynnal cyfweliadau byr anstrwythuredig ar feysydd gosodedig. Cofnodwyd y sgyrsiau yn syth ar ôl siarad â'r grŵp o bobl ifanc. Roedd y dull hwn wedi'n galluogi i gasglu barn 67 o bobl ifanc, y ceir dadansoddiad rhifol ohonynt yn Atodiad 3.

## 5. Cynnal deialog gyda Rhan-ddeiliaid Eraill: Trigolion Sandfields

Aethom i un o gyfarfodydd cymdeithas y trigolion i ddweud wrth y trigolion byddai'r ymchwil yn digwydd ond ni ddefnyddiwyd y fforwm hwnnw ar gyfer trafodaethau manwl, gan ddewis canolbwyntio'r adnoddau prin ar y boblogaeth darged a'r trigolion a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol. Derbyniodd Barnado's Cymru lythyr gan gymdeithas trigolion Sandfields yn amlinellu eu gwrthwynebiad a'u pryderon ynghylch y prosiect, sydd wedi'u cynnwys yn nadansoddiad cyffredinol yr adroddiad hwn.

## 6. Deialog gyda Rhan-ddeiliaid Allweddol: Staff a Llywodraethwyr San Helen

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr yr ysgol ac yn un o'r rhain, bu trawsdoriad lled eang o grwpiau a sefydliadau eraill â diddordeb yn cymryd rhan. Drwy gydol yr astudiaeth, mae'r tîm ymchwil wedi cydgysylltu'n agos â phennaeth yr ysgol. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r ysgol weithio yn ôl ei blaenoriaethau ei hun, rheoli'r hyn sy'n digwydd ar ei thiroedd, cydymffurfio â pholisïau a thargedau penodol y llywodraeth, a bod yn hyderus y gellir diogelu disgyblion, staff ac adeiladau'r ysgol.

## 7. Deialog gyda Rhan-ddeiliaidAllweddol: Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol

Yn ogystal â'r uchod, mae'r astudiaeth wedi cadw cysylltiad agos â'r sefydliadau plant a chwarae yn y ddinas a'r Tîm Cymunedau'n Gyntaf lleol, ac mae pob un ohonynt wedi'u hysbysu ac wedi parhau'n gadarnhaol ac yn gefnogol.

## 8. Deialog gyda Swyddogion yr Awdurdod Lleol

Bu'r tîm ymchwil hefyd mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Ninas a Sir Abertawe sy'n rheoli datblygiad safle'r Vetch er mwyn rhannu casgliadau perthnasol yr ymchwil a bod y trafodaethau ynghylch Stryd Vincent yn ychwanegu gwerth at ddatblygiad y Vetch yn hytrach na dyblygu cynlluniau.

Cafwyd cyfarfodydd ac ymgynghori dros y ffôn gyda swyddogion adrannau amrywiol yr awdurdod gan gynnwys Adfywio, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Priffyrdd, Llwybrau Diogel i'r Ysgol a'r Tîm Datblygu Chwarae, a sawl cyswllt anffurfiol hefyd.

# Crynhoi'r Data

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data o'r holl ddulliau gwahanol hyn. Lle bo hynny'n angenrheidiol, mae'r awduron wedi amlinellu pa adrannau o'r boblogaeth a wnaeth sylwadau penodol. Serch hynny, yn gyffredinol, mae plant, pobl ifanc ac oedolion wedi pwysleisio'r un materion. Yn fyr, dyma nhw:

- bod diffyg gofod cymunedol awyr agored diogel yn ardal Sandfields
- bod diogelwch y strydoedd a pharcio'n faterion pwysig
- bod cyfleusterau newydd yn cael eu cefnogi gyhyd ag y bo problemau diogelwch posib yn cael eu hystyried a'u datrys

Dylid nodi bod angen gwrando ar y wybodaeth gan blant a phobl ifanc, ond y dylai oedolion sydd â'r arbenigedd perthnasol ei datblygu hefyd. Y rheswm dros hyn yw os bydd ymchwilydd yn gofyn i blant a phobl ifanc am yr hyn y byddent hwy'n ei ddymuno, byddant yn debygol o ofyn am yr hyn y maent eisoes yn gwybod amdano. Roedd amser i gefnogi a datblygu syniadau'r plant yn ystod yr ymchwil â phlant ysgol San Helen, ond nid oedd gennym yr adnoddau i wneud y math o ddatblygu gallu gyda'r plant a'r bobl ifanc a ddefnyddiai'r bws Tardis nac yn ystod y gwaith stryd allgymorth. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'r syniadau gan y plant a'r bobl ifanc yn ymarferol, er bod ceisiadau am bwll nofio a siglenni'n awgrymu bod diffyg rhai cyfleusterau hamdden yn ardal ehangach Abertawe. Dylid ystyried natur adeiladol cyffredinol yr awgrymiadau fel tystiolaeth o ddymuniad y plant i ddefnyddio gofod agored i chwarae a chwrdd â ffrindiau ynddo yn hytrach nag i'w fandaleiddio.

# 2: Y Ddarpariaeth Awyr Agored Bresennol a'r defnydd a wneir ohoni gan Blant Lleol

## Disgrifiad o'r Ddarpariaeth Bresennol

Gofynnwyd i bob adran o'r gymuned ynghylch y ddarpariaeth awyr agored presennol a'u barn am hynny. Gwnaed hyn er mwyn asesu a oedd angen gofod agored arall. Mae'r adran hon yn manylu ar yr agweddau at y gofod awyr agored presennol, mae Adran 3 yn manylu ar y posibiliadau ar gyfer gofod newydd tra bod Adran 4 yn archwilio'r ystyriaethau ymarferol ac yn nodi'r camau y gellir eu cymryd nesaf.

Pedair ardal gydnabyddedig yn unig sydd ar gyfer chwarae yn ardal Sandfields. Mae Parc Victoria y tu allan i'r gymuned i'r gorllewin ac oddeutu cilomedr o gartrefi, ac ar draws ffyrdd prysur. Ym mhen arall Sandfields, yn Stryd Recorder, ceir ardal chwarae fach o'r enw Parc Recorder, mewn bwlch yn y teras. Oddi ar Stryd Madog, ceir ardal chwarae drefol tarmacadam y cyfeirir ati o hyd yn gwbl briodol fel 'the Bombs'. Mae diffyg darpariaeth chwarae yn ardal Sandfields yn golygu bod pobl ifanc yn defnyddio'r mannau hyn er gwaethaf eu cyflwr gwael.

Yn bedwerydd, mae'r traeth a glan y môr ar ochr arall i brif ffordd ddeuol brysur (Heol Ystumllwynarth) sy'n cludo traffig trwm ac heb fod o unrhyw gymorth o werth i'r gymuned leol. Dangosodd ymchwil yn y gorffennol (gan ymgynghorwyr) bod rhieni'n anfodlon caniatáu i'w plant fynd i'r cyfeiriad hwnnw heb eu hebrwng, a hynny'n naturiol, ac nad yw'r traeth yn cael ei hystyried yn fan hwylus yn lleol. Nid yw'r ffrâm ddringo 'llong morladron' o safon a'r ardal chwarae (sydd wedi'i chuddio y tu ôl i fur y môr) yn cael ei ystyried fel cyfleusterau lleol nawr ac yn y man gan drigolion Sandfields.

Dywedodd llawer o'r plant "does dim coed" gan ddweud y byddent yn mynd i'r parciau lai nag unwaith yr wythnos, ar gyfartaledd, a phrin iawn i'r traeth os nad oedd yn ddiwrnod cynnes o haf.

## Sylwadau

Mae'r berthynas rhwng cymuned Sandfields a glan y môr wedi cael ei nodi sawl gwaith mewn astudiaethau diweddar, ac yn raddol, gwelir atebion adeiladol yn dod i'r golwg, yn sicr yn dilyn yr Astudiaeth Parth Cartrefi ddiweddar gan Sylfaen Cynefin i Gymunedau'n Gyntaf. Er nad yw'r profiad o roi mwy o bwyslais ar gerddwyr, cartrefi a busnesau lleol ar Heol Ystumllwynarth yn galonogol iawn, ceir arwyddion y gellir cael enillion sylweddol yn y dyfodol agos. Mae Adroddiad Strategaeth Canol y Ddinas, sydd yn destun ymgynghori ar hyn o bryd, hefyd yn ceisio cysylltiadau gwell i gerddwyr, ac mae prosiect presennol y ddinas i sefydlu'r llyfrgell ganolog a chyfleuster llywodraeth leol mwy hygyrch yn Neuadd y Sir hefyd yn pwysleisio'r angen am fynediad mwy hwylus i gerddwyr a beicwyr ar draws y ffordd brysur hon.

Nid oes unman yn Sandfields sy'n addas ar gyfer chwarae ar y stryd. Yr hyn sy'n rheoli'r ardal yw symudiadau a pharcio ceir. Mae cau rhai strydoedd wedi golygu bod llwybrau eraill yn fwy prysur. Mewn ffyrdd caeedig (ac mae Stryd Vincent y tu allan i'r ysgol yn un ohonynt), mae plant yn chwarae, ond mannau go annymunol ydynt ar y cyfan. Er bod lleiafrif o'r trigolion lleol wedi mynegi eu gwrthwynebiad, datgelodd yr ymgynghori o ddrws i ddrws ac ar y stryd gefnogaeth eang i ddarpariaeth briodol ar y stryd i blant.

Bernir bod darparu elfennau glas 'yr amgylchedd naturiol' yn elfen bwysig o wella'r gofod awyr agored i blant lleol, yr ysgol a'r gymuned i gyd.

## Y Traeth

Prin yw'r plant sy'n mynd i'r traeth ar eu pennau eu hunain, er bod rhai plant dros 9 oed yn cael mynd i'r traeth mewn grŵp, ond mae'n rhaid iddynt adael y traeth erbyn 7 o'r gloch. Yn ystod y dydd yn yr haf, mae rhai o'r plant yn mynd i'r traeth gyda'r teulu i gael picnic a phadlo. Yn ystod y tymhorau eraill ac wedi iddi ddechrau nosi, nid yw'r plant na'r bobl ifanc yn ystyried y traeth fel man diogel am y rhesymau canlynol:

- "Mae'n rhy anghysbell ac unig, ac mae'n rhaid gweld plant er mwyn iddynt fod yn ddiogel"
- "Mae'n frwnt ac yn llawn sbwriel, yn arbennig caniau diodydd a nodwyddau"
- "Mae pobl ryfedd yno'n aml sy'n loetran ar y traeth, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio cyffuriau sy'n ymgasglu yn y parc pren i rannu cyffuriau"

Llwybr anodd a pheryglus iawn ar draws ffordd ddeuol brysur Heol Ystumllwynarth, i'r cyfleusterau chwarae sydd y tu ôl i fur y môr ar y traeth.

## Parciau

Mae'r plant yn hoffi Parc Victoria, ond dywedodd llawer o blant ei bod yn anodd cyrraedd y parciau eraill yn ardal Sandfields a San Helen am y rhesymau canlynol:

- Mae plant o dan 10 oed yn cael chwarae y tu allan i'w cartrefi ac yn y stryd gyda'u ffrindiau heb oedolion, ond ni chânt fynd i'r parc. Mae hyn yn golygu eu bod yn dibynnu ar riant (fel arfer ar ddiwedd amser ysgol ac amser te) i fynd â hwy i'r parc.
- I blant o dan 9 oed sy'n byw yng nghanol Sandfields, mae'n daith gerdded sylweddol i Barc Victoria neu Barc Recorder am eu bod ar naill ben yr ardal a'r llall. Gall taith ar droed 10 munud i oedolyn gymryd 20 munud i blentyn ifanc ac mae'r daith yn hwy os oes gan y plentyn frodyr a chwiorydd iau. Dywedodd llawer o'r plant sy'n byw yng nghanol Sandfields eu bod yn cael eu gyrru i'r parc, ond os nad oedd car gan y teulu, tueddai'r plant i beidio â mynd yn aml i'r parciau.

- Mae ardal chwarae Stryd Recorder wedi'i chynllunio ar gyfer plant bach ac felly nid oes cyfarpar chwarae addas i blant y tu hwnt i oedran arbennig. Mae hyn yn effeithio ar atyniad y parc i deuluoedd oherwydd nad yw'n denu plant o oedrannau gwahanol.
- Gyda'r nos, bydd teuluoedd yn tueddu i beidio â defnyddio parc Stryd Recorder oherwydd fe'i hystyrir fel lleoliad anodd mewn rhan o Sandfields nad yw'n ddiogel.

- Mae swm a chyflymder y traffig yn rhwystro plant rhag mynd i'r parciau. Mae diffyg mannau croesi diogel, nifer y strydoedd un ffordd a nifer y ceir sydd wedi'u parcio yn golygu bod croesi'r stryd yn anodd i blant.

Mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynd i'r ddau barc yn dweud eu bod yn hoffi'r cyfarpar chwarae a'r coed ym Mharc Victoria. Mae'r plant llai yn hoffi Stryd Recorder, tra bod y plant hŷn yn chwarae pêl-droed a gêmau stryd y tu allan i ffensys y parc.

## Gofod Trefol ar gyfer Chwarae: Neuadd y Ddinas a'r 'Bombs'

Dywed rhai plant eu bod yn chwarae ar y borfa y tu allan i Neuadd y Ddinas os nad oes ganddynt ddigon o amser i fynd pob cam i Barc Victoria. Dywed y plant eu bod yn hoffi'r ardal hon am ei fod yn las a gallant eistedd a chymdeithasu â'i gilydd. Dylid sylwi mai ychydig iawn o blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r borfa y tu allan i Neuadd y Sir i chwarae, ac mae hynny'n dueddol o ddigwydd gyda'r nos yn yr haf yn hytrach nag ar adegau eraill yn y flwyddyn neu'r wythnos.

Mae rhai plant yn defnyddio'r 'Bombs' yng nghanol Sandfields fel lle chwarae agored. Serch hynny, dywed llawer o'r plant nad ydynt yn mynd yno am nad ydynt yn teimlo'n ddiogel yno, gyda rhai plant yn sôn bod bwlio'n digwydd yno. Credai rhai pobl ifanc ac oedolion hefyd nad oedd yn lle chwarae diogel, oherwydd sbwriel, gwydr wedi torri, baw cŵn a phroblemau llygod mawr. Mae'r ardal hefyd yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd gwahanol – ymarfer y ci, chwarae pêl-fasged ac yfed ar y stryd. Nid yw'r plant yn mynd yno'n aml oherwydd y baw cŵn.

Canlyniad i'r bomio adeg y rhyfel yw'r 'Bombs' yn Stryd Madog. Mae'n gorwedd wrth gefn cartrefi (a hynny ei hun yn broblem), ar draws y ffordd o'r stadiwm gwag ac mae ar lwybr drwodd o'r dre i dafarndai ardal Ystumllwynarth a thai gwely a brecwast.

*'The Bombs' – man anaddas i blant i chwarae; wrth gefn tai, yn llawn gwydr wedi torri a baw cŵn, heb gynnig fawr o werth fel lle chwarae.*

## Sylwadau Cloi

Mae'r data'n awgrymu bod angen amrywiaeth o ofodau cyhoeddus yn Sandfields. Dylai'r gofodau hynny fod yn amrywiol ac wedi'u gwasgaru, nid mannau chwarae o angenrheidrwydd ond gofodau awyr agored y gall aelodau gwahanol o'r gymuned a phlant ysgol o wahanol oedrannau eu defnyddio ar adegau gwahanol yn ystod y dydd a gyda'r nos. Mae'r lle sydd ar gael i chwarae yn iard yr ysgol ac yn Stryd Vincent yn ddelfrydol i gyfrannu'n sylweddol at y ddarpariaeth honno.




*Gwaith celf y plant o sesiynau'r grwpiau ffocws*

# 3: Materion Datblygu Posib ar gyfer Iard yr Ysgol a Stryd Vincent

## Y Rhesymeg dros ystyried Iard yr Ysgol

Mae Ysgol San Helen yn ysgol gyfoethog ac amrywiol mewn cymdogaeth gymysg ei diwylliant a'i hethnigrwydd. Mae mewn sefyllfa ddelfrydol yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol, am ei bod yn ganolog a bod llawer o weithgareddau cymunedol yn digwydd yno.

Dywedodd y plant a'r bobl ifanc eu bod yn chwarae y tu allan i'r ysgol yn Stryd Vincent yn aml ac felly byddai'n beth da medru defnyddio iard yr ysgol hefyd. Mae hyn yn awgrymu y byddai defnyddio iard yr ysgol yn ddatblygiad naturiol i'r mannau lle mae'r plant yn chwarae ar hyn o bryd yn yr ardal.

Sgipio, tag a gêmau rhedeg, pêl-droed, pêl-fasged a gêmau 'esgus' fel chwarae tŷ yw gêmau'r plant yn yr iard chwarae'n bennaf. Yn gyffredinol, eu dymuniad ar gyfer unrhyw ychwanegiadau i'r iard chwarae a'r stryd fyddai cynnwys rhai o'r gêmau presennol a hefyd darparu amgylcheddau newydd yn hytrach na darparu rhywbeth gwahanol.

*Mae Stryd Vincent a iard yr ysgol drws nesaf i'w gilydd (adeilad yr ysgol mewn glas, gofodau mewn brown golau)*

## Dewis y plant ar gyfer defnyddio'r Iard Chwarae

Roedd yn plant yn gyffrous iawn ynghylch y syniad o ddefnyddio iard yr ysgol cyn ac ar ôl ysgol, a dywedodd rhai y byddent yn ei ddefnyddio ar benwythnosau hefyd. Dywedodd pobl ifanc o dan 15 oed y byddent yn defnyddio'r iard gyda'r nos i gymdeithasu â'u ffrindiau, chwarae gêmau cardiau a chwrdd mewn man diogel. Pwysleisiwyd hefyd y byddent yn parhau i ddefnyddio Parc Victoria ar gyfer chwarae chwaraeon ac y byddai iard San Helen yn fan gwahanol i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eistedd neu weithgareddau nad oedd yn ymwneud â chwaraeon. Credai pobl ifanc dros 15 oed y byddai'n syniad gwych ar gyfer plant iau, yn arbennig brodyr a chwiorydd a chefndryd iau, ond na fyddent yn mynd yno eu hunain am eu bod yn rhy hen ac yn mynd i ganol y ddinas beth bynnag i gwrdd â ffrindiau. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc y byddai angen gofalu am unrhyw ofod cymunedol newydd er mwyn iddo fod yn ddiogel i'r plant ei ddefnyddio yn y bore cyn ysgol.

*chwith: babanod yn chwarae yn iard yr ysgol yn ystod yr egwyl*

*dde: plant iau'n chwarae yn y stryd ar ôl ysgol*

## Materion i Fynd i'r Afael â Hwy wrth Ddatblygu Iard yr Ysgol

Mae'r plant iau'n cwyno fod gan y babanod iard chwarae mwy ac yn eu barn hwy 'gwell' na'u iard hwy. Wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gofod, bydd yn rhaid gweithio'n ofalus gyda'r plant iau fel na fydd y drwgdeimlad yn cynyddu. Awgrymodd y plant iau y gallent gyfnewid eu iard chwarae neu bod dosbarthiadau dynodedig yn cael defnyddio ardaloedd gwahanol o'r iard bob wythnos.

Mae babanod, yn arbennig y plant 5 mlwydd oed, yn ofnus o'r plant iau ac roeddent hwy'n poeni ynghylch cael eu gwthio o'r ffordd wrth ddefnyddio'r offer chwarae neu ddefnyddio'r lle yn eu iard chwarae hwy.

Ceir gwahaniaethau rhyw amlwg iawn: mae'r merched iau'n hoffi sgipio a siarad â'u ffrindiau, a rhai'n hoffi pêl foli; tra bod yn well gan y bechgyn chwarae pêl-droed a phêl-fasged. Mae'n ymddangos bod gêmau'r bechgyn yn cymryd llawer mwy o le ac yn rheoli'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod rhaniad rhyw yn llai ymhlith y babanod ac maent hwy'n hoffi chwarae gêmau cyffwrdd a rhedeg. Bydd gofyn mynd i'r afael â'r dynamigau hyn wrth ddatblygu'r iard chwarae o gwbl, drwy ddarparu cyfleusterau ar gyfer dewisiadau chwarae'r rhywiau.

Ar hyn o bryd, mae ardal chwarae'r plant iau yn y gofod llai yng nghefn yr ysgol. Mae'r plant bach yn yr ardaloedd blaen. Mae'r ardal yn y blaen wedi'i rhannu'n llwyddiannus ar gyfer gweithgareddau gwahanol ac yn cynnig gwersi pwysig o'r hyn y gellir ei gyflawni.

Serch hynny, y prif reswm dros raniad presennol y mannau chwarae yw bod dosbarthiadau'r babanod yn mhen gorllewinol yr ysgol ac ni fyddai'n briodol nac yn gyfleus iddynt drosglwyddo i ben arall yr ysgol.

Ar y llaw arall, mae'r astudiaeth yn sicr wedi codi mater defnyddio'r gofodau a'r ystafelloedd dosbarth. Argymhellir y dylid adolygu hyn er mwyn llunio strategaeth tymor hir ar gyfer defnyddio'r adeiladau a'r gofodau. Er enghraifft, os oes potensial gwirioneddol ar gyfer canolfan ddydd/darpariaeth anghenion arbennig, yna hwyrach y byddai'r ardal fwy hwylus yn y cefn a'r ystafelloedd cyfagos ar ochr ogleddol yr adain ddwyreiniol yn cael eu hystyried ar gyfer y ddarpariaeth dan do gysylltiedig. Mae hyn hefyd yn awgrymu'r posibilrwydd o drosglwyddo adran y babanod i'r ochr honno ac i'r iard chwarae hwnnw.

O ran defnyddio adeiladau'r ysgol yn y tymor hir, bydd yn rhaid ystyried dyfodol yr adain ddwyreiniol. Mae'r defnydd presennol, nad yw'n ymwneud â'r ysgol, 'dros dro' ond yn lled tymor hir.

Un dewis fyddai estyn y defnydd ohono fel adeilad cymunedol, efallai fel adnodd cymunedol. Yna byddai'n werth ystyried darparu mynediad newydd o gornel Stryd Vincent/Heol Burrows.

## Problemau Traffig yn Stryd Vincent a'r Strydoedd Cyfagos

Drwy gau strydoedd crëwyd yr un faint o broblemau â'r rhai a ddatryswyd gan fod:

- gyrwyr yn gollwng plant mewn mannau anaddas a pheryglus
- cerbydau'n symud ac yn troi'n beryglus yn ardal yr ysgol (wrth droi, maent yn aml yn mynd ar y palmentydd)
- lefelau traffig yn y strydoedd gerllaw wedi cynyddu

Ar ben hynny, mae'r materion diogelwch ffyrdd a nodwyd yn cynnwys:

Rheiliau i ddiogelu'r plant rhag y traffig yn cyfyngu mynediad wrth fynedfa a wal yr ysgol, gan annog chwarae peryglus

Mynediad i iard adeiladwyr lleol ger pen caeedig y ffordd a chyferbyn â mynediad yr ysgol

Parcio ceir gan drigolion a staff ar lefelau anaddas i'r stryd a'r ysgol

Ceir wedi'u parcio ar y ffordd yn cyfyngu ar fynediad gweladwy'r ysgol

Pwysau i ddyrannu gofod chwarae prin yr ysgol ar gyfer parcio ceir y staff

*chwith: Mynedfa i iard adeiladwyr yn union gyferbyn â gât yr ysgol*

*dde: Tafarn San Helen ar gornel Stryd Vincent*

Cyfeiriodd y plant at nifer y ceir yn eu hardal a sut roedd swm a chyflymder y traffig yn peri iddynt deimlo'n anniogel. Mae traffig yn rhwystro plant rhag mynd i'r parciau'n hawdd. Nid oedd y plant yn sicr sut y gellir arafu neu leihau'r traffig ond eu dymuniad oedd cael llai o draffig, er mwyn iddynt chwarae mwy yn yr awyr agored.

## Camddefnyddio Sylweddau

Mae'r tablau yn yr atodiadau'n awgrymu bod llawer o bobl feddw yn yr ardal ac mae gwydr wedi torri'n broblem (soniodd llawer o'r plant am broblem meddwdod a chamddefnyddio sylweddau), ac roedd pryder unfrydol ynghylch sut i gadw gofod cymunedol yn glir o wydr wedi torri a sbwriel.

Mae sawl tafarn yn yr ardal a chyfeiriodd llawer o bobl at lefelau camddefnyddio sylweddau yn yr ardal a'r problemau yn sgîl hynny. Mae hyn yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r problemau sy'n ymwneud ag alcohol yn y gymuned.

## Bwlio

Mae bwlio'n bryder i rai plant. Roedd hi'n amlwg mai plant bach a phlant BME a soniodd fwyaf am fwlio yn y gymuned. Mae'r plant yn profi difenwi a bygythiadau gan oedolion yn ogystal â phlant, ond mae plant BME hefyd yn profi bwlio cymunedol. Dylid ymchwilio i union ddynameg hyn ymhellach os bydd Parth Cartrefi'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod y cymunedau BME yn gallu defnyddio'r gofod cymunedol a sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi wrth ymdopi â bwlio gan oedolion.

## Amrywiaeth y Gymuned

Mae'r data, ynghyd â sylwadau'r ymchwilwyr, yn awgrymu nad yw'r amrywiaeth gymunedol yn gytûn a bod trigolion yn profi ac yn byw â'u gwahaniaethau o ddydd i ddydd. Nid yw Ysgol San Helen yn boblogaidd ymhlith rhai trigolion gwyn hŷn sy'n ffafrio datblygu parth cartrefi o gwmpas Ysgol Christchurch yn hytrach nag ysgol San Helen. Mae gan gymdeithas y trigolion lais cryf yn y gymuned ac yn gyfrwng cyfranogiad cymunedol da, ond nid oes gan y rhieni a'r oedolion hynny nad ydynt yn mynd i gyfarfodydd y gymdeithas neu bod ganddynt farn wahanol i'r gymdeithas ynghylch yr hyn y dylid ei ddatblygu yn ardal Sandfields fodd o gymryd rhan mewn penderfyniadau cymunedol. Wrth ystyried unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal, bydd yn rhaid ystyried gwleidyddiaeth y gymuned hefyd yn ofalus.

Gellid mynd ati drwy asesiad o anghenion gofod chwarae cydbwysol a'r cyfleusterau cymunedol presennol.

## Ffiniau rhwng defnyddio'r iard chwarae fel man chwarae a chan y gymuned

Pwysleisiodd y plant bod yn rhaid iddynt deimlo'n ddiogel yn ystod amser ysgol ac na ddylai dieithriaid ddod i mewn i'w iard chwarae. Dywedwyd hefyd y byddai'n rhaid gofalu am eu hysgol os oedd pobl yn defnyddio'r iard chwarae ar ôl oriau ysgol. Roed ganddynt ddigon o syniadau ynghylch sut y gallai'r ysgol gael ffiniau gwahanol i sicrhau diogelwch ond hefyd sut y gellid newid golwg allanol yr ysgol drwy newid y wal a'r gatiau.

Roedd y plant, y bobl ifanc a'r oedolion a oedd o blaid datblygu gofod cymunedol yn Stryd Vincent bron yn unfrydol o'r farn y dylid dymchwel y wal. Nid yw'r plant yn yr ysgol hoffi'r wal o gwbl am nad ydynt yn gallu gweld allan ac mae'n teimlo fel carchar. Gellir crynhoi'r consensws hwn yng ngeiriau un o'r plant "mae'r wal uchel yn teimlo fel bod mewn carchar".

Dywedodd y plant na fyddent yn hapus chwarae y tu ôl i wal uchel ar ôl oriau ysgol am na fyddai neb yn gallu eu gweld a sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd y plant na fyddent yn ddiogel petai'r iard chwarae'n gwbl agored i'r stryd. Y dewis pennaf oedd ffens neu wal isel gyda rheiliau uwch ben a gatiau lliwgar. (Dangosai un o'r ffotograffau gatiau metel â phatrymau lliwgar a dewisodd pob grŵp ffocws hynny fel eu dewis cyntaf).

Ceir barn gadarn iawn ymhlith yr oedolion ynghylch unrhyw newid i olwg allanol yr ysgol. Er mai penderfyniad yr ysgol a'r sir fyddai hwn, mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r hyn yr oedd gan wahanol garfannau'r gymuned i'w ddweud.

Mae Cymdeithas Trigolion Sandfields wedi pleidleisio'n erbyn derbyn unrhyw gynlluniau i ddymchwel wal yr ysgol, beth bynnag fydd yn ei lle.

*Chwith: Ysgol San Helen gan ddangos y wal o'r stryd a'r iard chwarae y tu mewn*
*A'r dde: Ysgolion ym Mryste a Tufnell Park lle mae terfynau'n caniatáu gweledd*

Dywedodd oedolion yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hon ac heb wrthwynebu parth cartrefi y dylid newid y wal am ei fod yn ddolur i'r llygad ac yn anghroesawgar i ymwelwyr. Dywedodd rhai oedolion a wrthwynebai'r syniad o barth cartrefi (5 yn ystod yr ymchwil gwaith maes) nad oeddent am weld na chlywed plant yn chwarae. Barnai oedolion a gytunai y byddai'n syniad da ystyried unrhyw newidiadau (cyfanswm o 35 yn ystod y gwaith maes) y byddai gatiau lliwgar a ffens yn fwy diogel i'r plant, yn fwy atyniadol ac yn gwella'r ardal. Roedd oedolion a wrthwynebai unrhyw newidiadau'n pryderu y byddai ffensys yn annog crwydriaid a phobl ifanc i ymgasglu yn yr ardal.

# 4: Cynigion Allweddol, Ystyriaethau Ymarferol

## Cynigion Posib ar gyfer Iard Chwarae'r Ysgol a'r Terfynau

Trafodir isod y materion a godwyd gan oedolion ynghylch wal yr ysgol o ran yr ystyriaethau ymarferol a'r camau nesaf. Yn dilyn o'r mwyafrif o ymatebion gan oedolion, a'r wybodaeth a roddwyd gan y bobl ifanc a'r plant, mae'r ymgynghorwyr dylunio wedi awgrymu'r canlynol:

Llunio ymylon pendant rhwng y gofodau a'r gweithgareddau gwahanol (pob un yn cynnwys nodweddion amrywiol ar gyfer defnydd gwahanol); mae angen mathau gwahanol o derfynau a gellir eu defnyddio i gyfoethogi cyfansoddiad gweledol y gofod.

Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer pob terfyn:

(i) rheoli lefelau diogelwch amrywiol

(ii) caniatáu tryloywder (sicrhau cysylltiadau gweledol rhwng y gofodau, yr ysgol, cartrefi gerllaw a phobl leol)

(iii) hwyluso trefniadau rheoli hwylus rhwng ardaloedd cyhoeddus a phreifat



*Cynigion ar gyfer iard yr ysgol a'r stryd gan nodi ansawdd ac amrywiaeth y gofodau cyhoeddus a phreifat a'r terfynau rhyngddynt*

I gyflawni'r meini prawf uchod, awgrymir y trefniadau canlynol ar gyfer y terfynau:

1. Mae angen terfyn uchel, diogel, y gellir gweld drwyddo (gan gynnwys gatiau) rhwng yr ysgol a'r gofodau cyfagos newydd a rennir, e.e. rhwyll dur addurnol
2. Awgrymir terfyn blaen isel rhwng y stryd lle ceir mesurau arafu traffig a'r adnoddau ysgol/cymunedol newydd a rennir, e.e. waliau cerrig isel a chyfuniad o reiliau/perthi isel.
3. Hwyrach bod lle hefyd i ragor o raniadau dros dro rhwng yr ardaloedd gweithgareddau gwahanol, ar ôl ystyried y rhain yn fanylach gyda'r plant a staff yr ysgol.
4. Bydd angen gatiau rhwng pob un o'r ardaloedd hyn hefyd.

# Cynigion Allweddol – Gofodol

Er mwyn creu adnoddau cymunedol awyr agored newydd y mae mawr angen amdanynt, ystyrir iard chwarae'r ysgol a'r stryd gyfagos gyda'i gilydd fel yr unig ofodau a fyddai'n cynnig y fath botensial.

Mae angen ailasesu presenoldeb y wal gerrig uchel gyda'r bwriad o'i disodli â therfyn ysgol mwy soffistigedig ond heb fod yn llai diogel.

Byddai'r agwedd hon yn hwyluso sefydlu'r gofodau o wahanol ansawdd, gyda diogelwch a mynediad yn amrywio. Gan gychwyn gyda'r mwyaf diogel:

- Iard yr Ysgol: gerllaw'r ysgol, gellir cryfhau cyfran helaeth o'r iard chwarae presennol fel ardal ddiogel at ddefnydd yr ysgol yn unig. Dyma'r man lle gellid lleoli adnoddau hawdd eu niweidio, e.e. gardd natur/gerddoriaeth/nodwedd dŵr/ystafelloedd dosbarth awyr agored.
- Gofodau a Rennir: rhwng ardal yr iard diogel (a ddisgrifir uchod) a'r stryd, gellir creu 2, 3 neu fwy o ofodau i gynnwys defnydd a chyfleusterau addas i'w rhannu rhwng yr ysgol a'r gymuned, e.e. cyfarpar chwarae syml, ardal gêmau stryd, dodrefn awyr agored sefydlog cryf. Hwyrach y byddai un o'r ardaloedd hyn yn addas ar gyfer mannau eistedd/aros i rieni y mae galw mawr amdanynt. Gellir penderfynu ar y math o adnoddau cymunedol/cyfarpar chwarae awyr agored i blant drwy ymgynghori pellach â staff a disgyblion yr ysgol a'r trigolion. Wrth rannu'r gofodau, bydd y rhain yn fwy tebygol o ddarparu ar gyfer amrywiaeth o grwpiau oedran, o blant bach (sy'n mynd yng nghwmni eu brodyr a'u chwiorydd i'r ysgol) i'r arddegau cynnar.
- Gofodau Stryd: cwbl cyhoeddus, diogel a chyfleus i weithgareddau cerdded a phlant – gan gynnwys mynediad i'r ysgol (cerdded a seiclo), man gollwng i gerbydau, cyfleoedd chwarae, gweithgaredd cymdeithasol a hyd yn oed y posibilrwydd i'r ysgol ddefnyddio gofod y stryd fel estyniad i'w tiroedd ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd

*Gofodau y tu allan i ddwy ysgol yn Llundain lle mae'r strydoedd yn ddiogel ac yn gyfleus i blant a rhieni, gyda choed, meinciau, atalbyst a rheiliau addurnol*

# Awgrymiadau'r Plant ar gyfer datblygu Iard yr Ysgol

Roedd gan y plant lawer o syniadau ynghylch yr hyn y gellid ei wneud yn eu iard chwarae er mwyn creu amgylchedd dysgu cyffrous a gofod chwarae ysgogol hefyd.

## Offer Parc

Roedd siglenni (yn arbennig siglenni teiars), llithrenni, si-sos, meri-go-rownd ac unrhyw offer parc mewn gwirionedd yn boblogaidd iawn. Wrth gwrs, mae'n bosib mai dyma'r math o offer chwarae y mae'r plant yn gyfarwydd ag ef. Roedd y plant am weld offer chwarae yn iard yr ysgol ond hefyd i lawr y stryd. Gan gael syniadau o ffotograffau o barthau cartrefi eraill, roeddent yn hoffi'r syniad o lithren a ffrâm ddringo y tu allan i'r tai yn hytrach nag yn y parc. Dywedodd plant o bob oed ei bod yn bwysig cael amrywiaeth o offer chwarae a darpariaeth gyffredinol ar gyfer oedrannau gwahanol, gan bwysleisio'n arbennig angen plant oed meithrin yn ogystal â darpariaeth ar gyfer eu hoed hwythau.

## Gofod Glas: Coed, Glaswellt a Phlanhigion

Bron yn unfrydol, roedd y plant yn awyddus i weld mwy o ofod glas, ac yn ôl un o'r grwpiau ffocws, "fe hoffem gael mwy o laswellt'. Roeddent yn synhwyrol ynglŷn â glaswellt, yn sylweddoli y gallai mwd ddifwyno'r ysgol, ac yn awgrymu cymysgedd o arwynebau, gan gynnwys glaswellt, y gallent fynd arno pan fyddai'r tywydd yn sych. Maent hefyd am goed nad oedd yn bigog, gyda choed ffrwythau yn iard yr ysgol fel un dewis poblogaidd, ynghyd â blodau. Soniodd rhai plant am 'jyst mwy o le glas' heb fawr o ots beth fyddai ynddo. Awgrymodd y plant y byddai amrywiaeth o arwynebau meddal yn syniad da fel na fyddai'r iard cyfan yn goncrid (tarmacadam).

## Tai a ffeuau

Awgrymodd llawer o'r plant dŷ coed gyda llithren. Ond os na fyddai hynny'n bosib, awgrymwyd deunyddiau neu ardal i adeiladu ffeuau. Roedd hyn yn boblogaidd ymhlith y merched a deimlai y byddent yn defnyddio adnodd o'r math hwn. Nodwyd ganddynt fod adeiladu ffeuau'n hwyl ond y byddent hefyd yn eu defnyddio ar gyfer chwarae dychmygus, cael lle tawel, ar gyfer adrodd storïau a darllen etc. Nid oedd y plant hŷn yn defnyddio'r gair 'ffau' gan gyfeirio at 'lochesi'. Serch hynny, byddent yn defnyddio'r rheiny am yr un fath o bethau â'r plant iau a mwynhau eu hadeiladu hefyd. Cyfeiriai'r plant at dai, ffeuau a llochesi fel lleoedd tawel a rhywle i gilio.

## Gerddi a Thyfu

Roedd llawer o blant yn awyddus i gael gardd ysgol gyda llysiau i'w tyfu. Roeddent yn hoffi'r syniad o allu tyfu planhigion o had, eu plannu a'u cynaeafu. Gallai hynny fod yn ychwanegol i'r coed ffrwythau a'r blodau neu yn eu lle. Teimlent hefyd y gallai hyn gysylltu â phrosiectau ysgol ac ychwanegu lliw i'w iard chwarae.

## Ystafell Ddosbarth y Tu Allan

Roedd rhai plant am weld ystafell ddosbarth y tu allan a fyddai'n gallu gweithredu fel 'lle i eistedd a sgwrsio' hefyd. Roeddent yn hoffi'r syniad o gael bwrdd du a lle i eistedd lle gallent gael gwers yn yr awyr agored, neu ddarllen pan fyddai'n ddigon cynnes.

## Dŵr a Phyllau

Awgrymodd lleiafrif sylweddol bwll a allai gysylltu â gwaith yr ysgol. Roedd y babanod yn pryderu pa mor ddiogel y byddai hynny i blant meithrin. Awgrymodd y plant iau glawr y gallai'r athrawon ei symud. Roedd brogaod a madfallod y dŵr yn boblogaidd!

# Cynigion – Gwelliannau i'r Stryd: Parth Cartrefi Stryd Vincent

Roedd gan blant, pobl ifanc ac oedolion y syniadau canlynol ar gyfer gwella eu stryd:

## 1. Gêmau Palmant

Roedd y plant lleiaf am weld gêmau wedi'u marcio ar y stryd, e.e. nadredd ac ysgolion neu sgots. Dyluniwyd bwrdd dis a oedd yn cynnwys grid rhifau 1-6 ganddynt, lle gellir taflu carreg arno i benderfynu tafliad y dis. Dywedodd y plant hŷn na fyddent hwy'n eu defnyddio, ond byddai'n beth da i'r plant iau, ac os palmant bric fyddai'n cael ei osod, byddai'n balmant mwy diddorol. Dywedodd y plant iau sy'n chwarae gêmau rhedeg a tag y byddent yn defnyddio'r palmant patrymog ar gyfer gêmau tag. Dymuniad y plant hŷn oedd cael palmant llydan er mwyn cael mwy o le i chwarae arnynt heb eu gorfodi i'r ffordd a'r peryglon a ddaw yn sgîl hynny.

## 2. Chwaraeon

Roedd y rhan fwyaf o blant am gael cylchoedd pêl-fasged ac offer mwy traddodiadol, megis peli a batiau, yn ogystal â'r awgrymiadau uchod. Serch hynny, roeddent yn eithaf bodlon bod heb chwaraefa, os caent un cylch pêl-fasged neu rwyd pêl-droed, ond roeddent yn pwysleisio eu bod am le i barhau i chwarae'r gêmau hyn (a lle i sgipio i'r merched).

*Cyfleusterau chwarae syml wedi'u gosod ar y stryd – mae'r rhain yn yr Iseldiroedd, lle'u gelwir yn 'Woonerf' ac ar y dde gwaelod, 'parth cartref' ym Manceinion.*

*Yn eu hanfod, mae pob un o'r rhain yn strydoedd preswyl diogel.*

Mae'r plant yn hoffi reidio beiciau a sgwteri a llafnrolio a sglefrolio, ond yn teimlo bod Stryd Vincent yn rhy brysur i hynny. Yn y ffotograffau o barthau cartrefi, roeddent wedi hoffi gweld plant ar eu beiciau a cheir wedi'u parcio mewn ffordd wahanol fel bod y strydoedd yn fwy diogel ac yn lletach.

## 3. Mwy o Liw ar y Stryd

Roedd plant ac oedolion am weld mwy o liw ar y strydoedd, gan awgrymau paentio tai, patrymau briciau, offer chwarae lliw a cherfluniau stryd. Credent y byddai gatiau newydd lliwgar a phatrymog yn ychwanegu lliw i'r stryd. Hoffai'r plant y syniad o arwynebau lliw meddal ar hyd y stryd fel bod llithrenni neu offer chwarae sefydlog arall yn mwy diogel i'w defnyddio. Byddent hefyd yn chwarae gêmau o gwmpas unrhyw gerfluniau stryd fel y peli a'r moch coed yn y ffotograffau o barthau cartrefi.

## 4. Mannau eistedd

Hoffai'r plant a'r oedolion y syniad o gael meinciau ar hyd y stryd fel lleoedd i eistedd a chael sgwrs. Hoffai rhai o'r plant y syniad o gael meinciau picnic ond gwelai eraill hynny'n rhy ddieithr i'w profiad hwy o'r amgylchedd trefol gan awgrymu na fyddai hynny'n gweithio.

## 5. Y Stryd fel Adnodd Awyr Agored

Mae'r ymarfer dylunio wedi nodi llawer o faterion y gellid eu hystyried fel rhan o ymyriadau eraill yn yr ardal. Mae'r cynllun parcio presennol i breswylwyr wedi'i groesawu gan drigolion fel ffordd o reoli siopwyr a gweithwyr sy'n parcio yno; bydd datblygu hynny i gael cyfyngiadau cyflymder, a Pharthau Cartrefi'n gofyn am dechnegau llawer mwy blaengar. Yn y lle cyntaf, gellir darparu ar gyfer anghenion staff yr ysgol drwy newidiadau syml yn Heol Burrows (y tu allan i'r ysgol), ac mae'r mater hwn yn destun trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol.

Yn yr un modd, os bydd Stryd Vincent yn dal wedi'i chau (ond ar y cyd â chyflwyno Parth Cartrefi o ddyluniad da), hwyrach y byddai'n addas ailystyried y rhwystr ffordd er mwyn archwilio i fwy o bosibiliadau defnyddio'r gofod stryd mewn ffyrdd gwahanol, gollwng plant i'r ysgol, parcio a chwarae.

Petai iard yr ysgol ar gael i'r gymuned gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau ysgol, gellid datblygu'r stryd y tu allan i'r ysgol hefyd i ddarparu mwy o gyfleusterau cymunedol awyr agored. Mae'r plant yn hoffi chwarae ar y stryd, ond yn teimlo nad oes dim iddynt ei wneud ac maent yn ofnus o bobl feddw a swm y traffig. Mae plant a phobl ifanc yn chwarae y tu allan i ysgol San Helen ac yn cael chwarae y tu allan i'r tai neu'r tu allan i'r ysgol tan amser penodol bob nos. Nid plant ysgol San Helen yn unig yw'r rhain, ond hefyd plant o Ysgol Bryn-y-môr, Ysgol Christchurch a phobl ifanc (13 oed ac iau) o Ysgol Esgob Gore. Dywedodd oedolion, pobl ifanc a phlant y byddai'n dda cael meinciau a lliw ar hyd y stryd.

# Parthau Cartrefi: Disgrifiad

I ategu gwelliannau i diroedd yr ysgol (a'r cynigion strategol a wnaed yn y gorffennol ynghylch ail-ddatblygu'r Vetch), bwriedir gwella diogelwch cerddwyr a gwella'r darn hwn o Stryd Vincent yn sylweddol drwy ei drawsnewid yn 'Parth Cartrefi'. Strydoedd preswyl diogel yw'r rhain lle ceir defnydd cyfartal o'r gofod stryd gan gerddwyr a cherbydau a lle ceir cyfyngiadau ffisegol i reoli cyflymder ac ymddygiad cerbydau.

Yn ei hanfod, gallai hynny olygu'r canlynol (er nad oes rheolau di-syfl ynghylch cynllun strydoedd o'r fath):



*Rhan o'r cynigion ar gyfer Stryd Vincent: dangosir y stryd fel wyneb a rennir (y palmantu mewn brown golau) gyda llociau parcio i breswylwyr (brown tywyll), coed stryd a chyfleusterau newydd wedi'u dewis gan y gymuned (dangosir fel symbolau lliw)*

- Aibalmentu'r stryd gyfan heb gwrbyn o derfynau'r tai ar un ochr i'r ochr arall a'r gofod sy'n deillio o hynny wedi'i rannu'n gyfartal rhwng pobl a cherbydau,
- Byddai cyflymder traffig yn gorfod gostwng i gyflymder cerdded fwy neu lai, drwy rwystrau ffisegol, cyfyngiadau ar leoedd i gerbydau a gweledded llai,
- Mae parcio i breswylwyr y stryd, staff yr ysgol ac ymwelwyr â chaniatâd wedi'i drefnu ger y tai er cyfleustra,
- Yn y pen draw, y gymuned sy'n penderfynu pa adnoddau a chyfleusterau fyddai'n addas i natur eu stryd hwy, e.e. dodrefn stryd sefydlog, offer chwarae i blant bach, gwelliannau amgylcheddol – gwelyau planhigion uchel a/neu goed stryd.

Yn ystod yr ymgynghori, cyfeiriodd y plant a'r trigolion at ba mor beryglus oedd seiclo yn eu strydoedd. Awgrymodd yr ymgynghorwyr y dylid ystyried Sandfields ar gyfer gwelliannau sy'n gwella diogelwch seiclo ac yn ei hybu, ynghyd â cherddwyr. Mae hyn o ganlyniad i'r grid strydoedd cysylltiedig sy'n hynod wastad, ei leoliad a'i agosrwydd at lwybrau i'r dref a gweddill y ddinas. Gellid ystyried prosiect i hybu beicio o gwmpas ysgolion lleol. Byddai hynny'n rhoi cyd-destun cwbl wahanol a gwerthfawr i welliannau yn y strydoedd lleol, lle mae ystyriaethau cerbydau modur bwysicaf ar hyn o bryd.

Mae Strategaeth 'Parth Cartrefi' yn sicr yn briodol a dylid ystyried y cynnig presennol ar gyfer Stryd Vincent fel catalydd ar gyfer y prosiect ehangach hwnnw.

Un ffordd o fesur llwyddiant y cynllun yn y blynyddoedd nesaf yw nifer y plant sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol.

## Ystyriaethau Ymarferol

Dywedodd y plant y byddent yn parhau i ddefnyddio'r lleoedd sydd eisoes yn bodoli ond roeddent yn gweld cyfle am 'rywbeth gwahanol' yn San Helen.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y byddai'r datblygiad yn Stryd Vincent yn cael ei ddefnyddio gan blant lleol yn hytrach na phlant o rannau eraill o'r ddinas, a dylai hynny leddfu pryderon oedolion o ran pobl ifanc yn ymgasglu yno'n hwyr y nos a phlant yn dod i mewn o ardaloedd eraill.

Mae plant a phobl ifanc eisoes yn cwrdd mewn ardaloedd gwahanol i chwarae chwaraeon a gêmau. Ceir yr argraff na fyddai gofod agored yn ardal Stryd Vincent yn newid yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud eisoes, ond byddai'n ychwanegu at y dewis o bethau i'w gwneud. Er enghraifft, nid yw pêl-droedwyr Parc Victoria am fynd i Ysgol San Helen i chwarae pêl-droed, ond byddent yn mynd yno i siarad, neu gymdeithasu â pherthnasau iau.

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod angen mwy o gyfleusterau ar blant a phobl ifanc, yn arbennig y rheiny 6-14 oed.

## *Cynllun dangosol arfaethedig ar gyfer Ysgol San Helen a Stryd Vincent*

***Mae'r ysgol wedi'i lliwio'n las tywyll, a'r cartrefi mewn glas golau***

***Mae'r arwynebau a rennir mewn brown golau gyda llociau parcio i breswylwyr mewn brown tywyll. Mae symbolau lliw'n dangos adnoddau newydd posib, a bandiau gwyrdd yn dangos pocedi gerddi blaen posib***

***Mae'r iard chwarae wedi'i liwio'n binc ac wedi'i rannu a'i ffinio â llinellau gwyrdd fel terfynau, y llinellau toredig ar gyfer pergolas uwch ben dosbarthiadau awyr agored, gwyrdd yn dangos coed a phrosiectau amgylcheddol***

# Rheoli a Chynnal a Chadw

Soniwyd llawer (a hynny'n deg) am oblygiadau rheoli a chynnal a chadw prosiect o'r fath – gan drigolion, staff yr ysgol a'r plant, yn ystod y broses ymgynghori.

Os yw'r prosiect i fynd yn ei flaen, a chyn ceisio sicrhau arian ar ei gyfer, bydd yn rhaid ystyried y materion canlynol yn ofalus a'u datrys:-

- Rheoli – hwyrach y bydd yn rhaid ailasesu dyletswyddau'r gofalwr er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion rheoli ar gyfer gofodau a rennir a'r trefniadau gwahanol ar gyfer diogelwch.
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus – byddai'n rhaid i'r Awdurdod ystyried hyn.
- Gwelwyd mewn mannau eraill nad yw dyletswyddau o'r fath yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer y ddinas a'r sir yn gyffredinol.
- Cynnal a Chadw – Hwyrach y bydd atgyweirio ac adnewyddu offer diffygiol yn dod dan ddarpariaethau cyllidebol arferol yr Awdurdod Lleol a/neu'r ysgol. Bydd yn rhaid i'r ysgol (addysg), adrannau parciau/hamdden a phriffyrdd yr Awdurdod Lleol rannu'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r cyfleusterau newydd.

Mae hefyd yn werth nodi ar hyn o bryd y bydd y trefniadau rheoli o ran trefniadau mynediad drwy'r gatiau'n amrywio – mae'n bosib y bydd parau o gatiau y bydd gofyn eu cloi/datgloi yn ystod y diwrnod ysgol a rhwng diwedd y diwrnod ysgol a dechrau cyfnod y gymuned (tua 3.30/4pm). Fodd bynnag, hwyrach y bydd ychydig llai o ofod (yn gyffredinol) y bydd yn rhaid ei lanhau/gynnal, ond o bosib, fwy o amrywiaeth o ofodau ac adnoddau gwahanol.

Wrth gwrs, ni all gwelliannau yn y gymdogaeth 'ddileu' yr holl ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r camymddwyn cysylltiedig; achosir y rhain yn aml gan broblemau sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil astudiaeth hon. Ond, ar y cyfan, disgwylir y bydd llai o aflonyddwch a llai o ymddwyn amhriodol. Bydd gofyn i bobl leol a phlant lleol gefnogi'r adnoddau hyn yn gadarnhaol.

Bydd materion rheoli eraill i'w datrys ynghylch cyfrifoldeb a goruchwyliaeth ar adegau gwahanol yn ystod y dydd gan yr ysgol a defnyddwyr eraill. Bydd hynny'n gofyn am ymagwedd gadarnhaol gan yr Awdurdod Lleol a'i gynrychiolwyr; ni ddylai fod yn fater anodd. Bydd yr ysgol a'r gymuned yn elwa'n fawr.

Wedi dweud hynny, mae'r ymgynghorwyr yn awgrymu y dylid neilltuo rhan o'r arian yn y cyfnodau cynnar ar gyfer atgyweirio. Fel yw'r achos gyda llawer o gyfleusterau cymunedol newydd o'r fath (p'un ai yn yr ysgol neu'r gymuned), ceir peth niwed cychwynnol a hynny'n faleisus. Unwaith y bydd wedi ei atgyweirio, gyda chydweithrediad plant lleol, anaml y bydd yn digwydd eto. Ar ben hyn, cydnabyddir y bydd angen ymagwedd ar y cyd gan adrannau'r Awdurdodau Lleol – Priffyrdd, Chwarae ac Addysg. Bydd yn rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd.

# Nodiadau Cloi

## Crynodeb

Diben yr astudiaeth ddichonoldeb hon fu ymchwilio, gyda'r trigolion, yr ysgol a phlant lleol, i'r potensial ar gyfer cyfleusterau chwarae ar y cyd ac ardal breswyl fwy diogel i holl aelodau'r gymuned.

O ganlyniad i ymgynghoriad trwyadl a threfnus a wnaed gyda'r buddiolwyr cymunedol perthnasol (yn arbennig plant ysgol a phobl ifanc), mae'n bosib gosod sylfeini cadarn iawn i ddatblygu cyfleusterau chwarae newydd a rennir, gwelliannau i diroedd yr ysgol ac ardal breswyl fwy diogel.

Er gwaethaf rhai amheuon gan leiafrif ymhlith y trigolion (yr ymdriniwyd â hwy'n drwyadl gan yr ymgynghorwyr yn y cynigion dylunio), mae'r rhan fwyaf o'r trigolion, staff yr ysgol a phlant o bob oed yn frwd o blaid y prosiect.

## Cyllido a Gweithredu

O reidrwydd, yr ysgol fydd yn gyrru'r prosiect yma yn ei flaen. Os ceir digon o gefnogaeth, bydd yn bosib llunio partneriaeth gyda Chymunedau'n Gyntaf ac asiantaethau a buddiolwyr eraill i geisio cyllid y tu allan i gyllidebau addysg.

Ar y llaw arall, gobeithio y bydd rhai cyfraniadau'n dod drwy sianelau'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys Addysg, Parciau a Phriffyrdd.

Mae cronfeydd amrywiol y gellir disgwyl cefnogaeth ganddynt ar gyfer prosiect o'r math hwn am ei fod ar flaen y meddwl cyfredol yng nghyd-destun polisïau addysg ac adfywio cymunedol, chwarae a diogelwch ffyrdd yn genedlaethol ac yn lleol.

Serch hynny, anaml iawn y bydd prosiectau fel hyn yn datblygu yn ôl unrhyw gynllun pendant – daw cyllid ar gael mewn ffyrdd na ellir eu rhagweld. Felly, byddai'n ddefnyddiol ystyried yr adroddiad hwn fel rhan o strategaeth hir dymor, i'w weithredu pan fydd yr arian ar ei gyfer wedi'i grynhoi.

Ar gyfer y cyfraniadau ariannol mwy sylweddol, bydd yn rhaid dangos y bydd y gymuned ehangach yn elwa'n uniongyrchol o'r gwelliannau, a dyna pam mae agor adnoddau dan do ac awyr agored yr ysgol i'r gymuned ehangach yn cael sylw yn yr adroddiad hwn. Mae cefnogaeth eang iawn i ddatblygiadau o'r fath cyhyd ag y bo'r materion diogelwch a diogeledd sylfaenol wedi'u datrys yn llawn.

Ar hyn o bryd, nid yw dylunio cynllun manwl iawn yn briodol, felly mae'n anodd rhagweld yn union beth fydd costau'r prosiect. Ond mae'r ymgynghorwyr wedi paratoi amcangyfrif o'r costau ar gyfer holl agweddau'r prosiect.

Er mwyn cwblhau'r holl waith arfaethedig yn iard yr ysgol, (gan gynnwys adnewyddu'r terfyn, gosodiadau newydd a chyfleusterau chwarae newydd ynghyd â'r arwynebau diogelwch cyfatebol), ac aildrefnu holl ofod y stryd ar gyfer y rhan hon o Stryd Vincent (a phen uchaf Heol Burrows), y gost debygol fydd rhwng £750k ac £1m (yn ôl ansawdd y deunyddiau a'r gosodiadau a ddefnyddir).

Nid yw hwn yn swm mawr, o ystyried y canlyniadau: adnoddau chwarae newydd, strydoedd diogel wedi'u hadnewyddu'n llwyr, gerddi blaen bychan i gartrefi, problemau parcio trigolion ac athrawon wedi'u datrys, cynnydd yng ngwerth tai ac amgylchedd deniadol dros ardal tua 250 metr sgwâr ar strydoedd lleol Heol Burrows a Stryd Vincent.

Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, mae'n annhebygol y bydd y prosiect yn cael ei weithredu yn y ffordd honno. Yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yw bod cyfres o brosiectau bach yn ymddangos: prosiect iard chwarae o safon a allai gostio £275k; prosiectau 'cychwynnol' llai, megis mynedfa'r babanod a allai gostio tua £25k - £50k am brosiect o ansawdd uchel, gan gynnwys gwaith ar y wal. Ond gallai cyllideb lai gyflawni canlyniadau gwerthfawr ar gyfer yr un math o brosiect. Dyma yw natur gwaith cymunedol. Bydd cyngor a chefnogaeth tîm Cymunedau'n Gyntaf a'r ymgynghorwyr yn bwysig iawn.

## Casgliadau

Mae hwn yn gynnig prosiect heriol iawn, gyda chefnogaeth sylweddol, ar adeg pan fo argoelion cyffrous ar gyfer y gymuned hon. Mae'n rhan ganolog o bolisïau addysg ac adfywio cymunedol cenedlaethol a lleol, a pholisïau chwarae a diogelwch ffyrdd. Gyda symud Cae'r Vetch (y cyn stadiwm pêl-droed) o Sandfields, dyma gyfle gwych i fynegi'r nodweddion ar gyfer y gofodau hynny a fydd yn ei ddisodli.

Wrth gwrs, bydd angen llawer mwy o waith dylunio manwl ac ymgynghori rhwng asiantaethau a'r gymuned (os bydd bwrw ymlaen â cheisio cyllid ar gyfer y prosiect a chyn i unrhyw ddatblygiadau ddigwydd).

Mae mannau dyluniedig sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn hybu 'perchnogaeth' leol a balchder cymunedol. Nid ydynt yn annog camdriniaeth a bernir bod cyflawni neu ddechrau gweithgareddau annymunol yn llai derbyniol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd sawl enghraifft a phrofiadau ym Mhrydain, yn ogystal â 30-40 mlynedd o brofiad gwerthfawr o Ewrop, yn arbennig y 'Woonerfen' (Parthau Cartrefi) yn yr Iseldiroedd a'r Almaen a fydd o help.

***Byddai hwn yn brosiect rhagorol, a fyddai'n darparu, mewn ffordd flaengar, adnoddau newydd y mae angen mawr amdanynt ar gyfer plant a'r gymuned ac yng nghanol un o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.***

***Dyma'r hyn y gellir ei gyflawni yma: gofod cymunedol a ddyluniwyd yn dda, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac a goleddir gan y gymuned, sy'n weladwy o gartrefi cyfagos, sy'n darparu adnoddau y mae angen mawr amdanynt i blant, ac y bydd pobl leol yn eu defnyddio ac yn eu mwynhau.***

# *Atodiad 1*

## Gwybodaeth rifiadol a gasglwyd oddi wrth 37 o blant ar Fws Tardis

Buom yn siarad â 37 o blant a chawsom wybodaeth am ryw, cefndir ethnig ac oedran gan bob un o'r plant hyn. Nid oedd 19 o'r plant wedi rhoi gwybodaeth ysgrifenedig manwl i ni am fod yn well ganddynt sgwrsio â ni mewn ffordd anffurfiol wrth wneud gweithgareddau ar y bws. Cwblhaodd 18 o'r plant ffurflenni holiadur a siarad â ni ynghylch eu syniadau a'u pryderon am ardal parth cartrefi. Mae manylion y wybodaeth o'r 18 ffurflen hyn yn y tablau isod. Ni chofnodwyd yn fanwl i ba ysgol yr oedd y plant yn mynd, ond o'r ffurflenni a'r nodiadau arsylwi a gofnodwyd, gallwn amcangyfrif y niferoedd a roddir yn y tablau isod. Cawsom fwy o wybodaeth gan y merched na'r bechgyn oherwydd roedd yn well gan y bechgyn chwarae yn y bws na siarad.

| ***Nifer y disgyblion o bob ysgol (bras amcan)*** | |
|---|---|
| Ysgol San Helen | 19 |
| Ysgol Christchurch | 11 |
| Ysgol Bryn-y-môr | 5 |
| Ysgol Esgob Gore | 2 |

| ***Rhyw y plant*** | |
|---|---|
| Merched | 26 |
| Bechgyn | 11 |

| ***Cefndir ethnig y plant*** | |
|---|---|
| BME | 14 |
| Gwyn | 23 |

| ***Oedran y plant*** | |
|---|---|
| 5 oed | 2 |
| 6 oed | 2 |
| 7 oed | 4 |
| 8 oed | 8 |
| 9 oed | 8 |
| 10 oed | 6 |
| 11 oed | 4 |
| 12 oed | 1 |
| 13 oed | 0 |
| 14 oed | 1 |
| Anhysbys | 1 |

| ***Sut maent yn defnyddio cyfleusterau*** | |
|---|---|
| Dw i ddim yn mynd mâs | 3 |
| Mynd i'r 'bombs' | 3 |
| Mynd i'r traeth<br>(ond nid ar fy mhen fy hun - 10) | 11 |
| Mynd i'r parciau<br>(ond nid ar fy mhen fy hun - 5) | 9 |
| Chwarae pêl-droed yn y stryd | 3 |
| Defnyddio 'play station' yn y tŷ | 7 |
| Mynd i Barc Victoria<br>(cael mynd ar ei ben ei hun – 1) | 10 |
| Chwarae y tu allan i'r tŷ | 7 |
| Chwarae y tu allan i Ysgol San Helen | 15 |

| ***Agwedd at y Cyfleusterau Presennol*** | |
|---|---|
| Angen mwy o le | 8 |
| Dim byd i'w wneud | 5 |
| Dim lle i chwarae ar wahân i'r stryd a'r traeth<br>(traeth ddim yn ddiogel) | 6 |
| Angen mwy o barciau, maen nhw'n rhy bell | 2 |
| Defnyddwyr cyffuriau'n defnyddio'r parciau<br>a'r traeth | 1 |
| Mae pethau da yma | 2 |
| Does dim pethau gwerth eu gwneud yma | 2 |

| ***Eu profiad yn San Helen*** | |
|---|---|
| Pobl feddw / ddim yn eu hoffi'n dod allan<br>o'r tafarndai | 4 |
| Dyw hi ddim yn ddiogel | 1 |
| Osgoi siop 'sleeves' | 4 |
| Bechgyn hŷn yn gas (stopiwch y bwlio – 2) | 5 |

| ***Pwy fyddai'n defnyddio iard yr ysgol?*** | |
|---|---|
| Ie! Syniad da! | 4 |
| Ar ôl ysgol a gyda'r nos | 7 |
| Byddai pawb yn ei ddefnyddio | 3 |
| Plant | 1 |
| Tramps | 1 |

| ***Beth ddylai newid / fod ynddo?*** | |
|---|---|
| Offer parc / chwarae | 4 |
| Chwaraeon (pêl-droed – 3 pêl-fasged – 1) | 7 |
| Gwneud e'n fwy o hwyl, er mwyn ei ddefnyddio gyda'r nos | 11 |
| Newid y wal – yn rhy uchel – 5, angen gweld drwy'r ffens er diogelwch – 1) | 6 |
| Gêmau ar y palmant | 5 |
| Gatiau newydd | 4 |
| Gwella'i olwg (yn well ac yn lanach) (planhigion – 1, lliwiau – 1, meinciau – 1, cysgod – 1, ardal awyr agored – 2) | 8 |
| Dim ceir | 1 |
| Dal i adael i'r plant chwarae y tu allan i'r ysgol | 1 |

# *Atodiad 2*

Gwybodaeth rifiadol gan yr oedolion y siaradwyd â hwy o ddrws i ddrws a sesiynau allgymorth bws 'Tardis'

| ***Oedolion yr ymgynghorwyd â hwy:*** | |
|---|---|
| Trigolion benyw- rhieni | 16 |
| Trigolion gwryw - rhieni | 1 |
| Trigolion benyw – nid rhieni | 10 |
| Trigolion gwryw – nid rhieni | 11 |
| Gweithwyr benyw yn San Helen – nid trigolion | 2 |
| Cyfanswm yr oedolion | 40 |
| ***Oedrannau yr oedolion yr ymgynghorwyd â hwy:*** | |
| 20-30 oed | 6 |
| 30-40 oed | 5 |
| 40-50 oed | 6 |
| 50-65 oed | 1 |
| 65-85 oed | 9 |
| Oed heb ei nodi | 13 |

| ***Ardaloedd lle roedd yr oedolion yn byw:*** | |
|---|---|
| Stryd Vincent | 22 |
| Stryd Rodney | 3 |
| Stryd Argyle | 2 |
| Stryd Western | 2 |
| Stryd Richardson | 2 |
| St Helen's Ave | 1 |
| Stryd Glamorgan | 1 |
| Marina | 1 |
| 'un stryd i ffwrdd' – heb fanylu | 2 |
| Heb fanylu ar ble roeddent yn byw | 4 |

| ***Dadansoddiad ethnig o'r oedolion yr ymgynghorwyd â hwy:*** | |
|---|---|
| Gwyn- Cymry | 26 |
| Tsieineaidd | 1 |
| Asiaidd | 7 |
| Heb fanylu | 6 |

| ***Agwedd at y cyfleusterau presennol a'r defnydd ohonynt (wedi mynegi mwy nag un ond nid pawb a fynegodd farn ar hyn):*** | |
|---|---|
| Dim i'r plant | 14 |
| Traeth yn dda i ddim i'r plant (yn frwnt, yn unig, ffordd brysur) | 16 |
| Ardal y 'Bombs' o ddim gwerth i'r plant | 3 |
| Angen mwy o ofod awyr agored | 20 |
| Angen mwy o gyfleusterau awyr agored | 19 |
| Ni all y plant fynd i'r cyfleusterau presennol ar eu pennau eu hunain | 8 |
| Yn mynd i'r parciau'n rheolaidd (Parc Victoria'n eithaf pell i blant bach iawn) | 10 |
| Mynd i'r traeth | 4 |

| ***Pwy fyddai'n defnyddio'r iard a phryd? (sylwadau yw'r rhain a wnaed gan oedolion mewn sgyrsiau. Ni ofynnwyd iddynt gytuno/anghytuno. Felly, er enghraifft, nid yw 10 o bobl yn dweud ei fod yn syniad gwych yn golygu bod 30 yn meddwl ei fod yn syniad gwael. Mae'n golygu bod 10 wedi nodi'r pwynt penodol hwnnw.)*** | |
|---|---|
| Byddai plant a theuluoedd yn ei ddefnyddio (os caiff ei ddylunio gyda hwy - 1) | 23 |
| Byddai meddwon, defnyddwyr cyffuriau a'r digartref yn ei ddefnyddio | 12 |
| Bydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod gwyliau'r ysgol a gyda'r nos | 2 |
| Byddai'n cael ei ddefnyddio drwy'r amser | 9 |
| Mae angen rhywbeth i'r gymuned i gyd, nid i'r plant yn unig | 4 |
| Mae'n syniad da – mae'r plant yn chwarae y tu allan i'r ysgol beth bynnag | 6 |
| Mae'n syniad gwych - ffantastig | 10 |
| Oedolion yn nodi eu bod o blaid y syniad, heb fawr o sylwadau pellach | 15 |
| Oedolion yn gwrthwynebu'r syniad yn chwyrn ac yn rhoi rhesymau | 4 |

| ***Pa newidiadau dylid eu gwneud yn y stryd?*** | |
|---|---|
| Defnyddio unrhyw un o'r syniadau yn y ffotograffau | 16 |
| Angen arafu traffig (agor y ffordd ond ei wneud yn gulach – 9) | 18 |
| Datrys y broblem draffig (newid y strydoedd un ffordd, haws croesi'r ffyrdd, nifer y ceir wedi parcio) | 17 |
| Mannau eistedd a chysgodfannau | 8 |
| Coed, glaswellt, gerddi blaen (fel y ffoto) a lliw | 7 |
| Offer chwarae ar y stryd | 6 |
| Pethau i'r plant ifanc iawn/ babanod (penodol gan famau ifanc) | 2 |
| Amrywiol – agor lido 1, caffi 1, llyn 1, ffordd ddiogel i'r plant ddefnyddio'r traeth | 4 |
| Diogelwch i geir wedi'u parcio | 5 |
| Gostwng y wal er mwyn gweld y plant | 7 |

| ***Mynegi Pryderon (gan gynnwys pethau roedd y trigolion wedi'u clywed)*** | |
|---|---|
| Angen goruchwylio'r plant – pwy fydd yn gwneud hynny? | 5 |
| Bydd pobl yn ymgasglu yn hwyr y nos | 1 |
| Angen bod yn ddiogel (rhag pedoffiliaid -1) | 2 |
| Bydd angen mynediad i iard yr adeiladwyr o hyd | 2 |
| Ni ddylai'r iard agor i'r stryd (heb rwystr) | 3 |
| Mae'n fwy diogel i'r plant chwarae ar y stryd nac yn y parc (yn gallu eu gweld) | 3 |
| Rwy wedi clywed pob math o bethau am hyn gan gymdeithas y trigolion (heb fanylu beth) | 5 |
| Eisiau gwybodaeth | 1 |
| Mae ffens gan Ysgol St Thomas ac mae pob math o broblemau | 1 |
| Mae'r wal wedi'i rhestru | 1 |
| Fe wnaethon nhw hyn yn Dan-y-graig ac mae problemau wedi bod ers hynny | 2 |

| ***Dirnadaeth yr oedolion ynghylch ardal San Helen*** | |
|---|---|
| Mae'n gyfeillgar ar y cyfan (plant yn gyfeillgar – 1) | 7 |
| Mae'n gymdeithas ranedig – yr hen a'r ifanc, du a gwyn (dywedwyd hyn ac nid yw wedi'i gynnwys yma fel arsylw) | 11 |
| Mae pobl hiliol (sy'n casáu ysgol San Helen- 2) | 5 |
| Dyw hi ddim yn ddiogel (yn arbennig yng nghanol pen y dref o San Helen) | 6 |
| Fandaliaeth, gwydr a photeli wedi torri | 5 |
| Gormod o feddwon a phobl sy'n cymryd cyffuriau (tafarndai'n broblem – 1, yfwyr ar y stryd yn defnyddio'r stryd fel toiled -1) | 14 |

# *Atodiad 3*

## Gwybodaeth rifiadol gan blant a phobl ifanc sy'n byw neu'n ymgasglu yn ardal San Helen.

Buom yn siarad â 63 o blant a phobl ifanc sy'n chwarae ar y stryd ac yn y parciau yn ardal San Helen. Roeddent rhwng 6 ac 17 oed, er mai 11-14 oed oedd y rhan fwyaf. Buom yn siarad ag ychydig mwy o fechgyn na merched, am fod y bechgyn yn dueddol o ddefnyddio'r parciau'n fwy na'r merched. Deuai'r plant a'r bobl ifanc o gefndir Cymreig a diwylliannau lleiafrifoedd ethnig a du gwahanol, er mai dim ond ag ychydig o ferched lleiafrifoedd ethnig a du y buom yn siarad.

| ***Sut mae'r plant a'r bobl ifanc yn defnyddio'r cyfleusterau presennol yn San Helen a'u dirnadaeth ohonynt*** | |
|---|---|
| Does dim byd i'w wneud | 54 |
| Rydym yn cwrdd ac yn ymgasglu ym Mharc Victoria | 25 |
| Rydym yn chwarae ar y stryd | 20 |
| Rydym yn mynd i Barc Recorder (i feddwi – 5) | 25 |
| Rydym ni'n mynd i'r 'Bombs' (er nad yw'n ddiogel – 8) | 18 |
| Ddim yn mynd i'r 'Bombs' am nad yw'n ddiogel | 7 |
| Yn mynd i'r traeth (tua 6 yn gadael y traeth tua 7 o'r gloch am nad yw'n ddiogel gyda'r nos, tua 5 yn ei ddefnyddio er nad ydynt yn teimlo'n ddiogel) | 22 |
| Ddim yn mynd i'r traeth – ddim yn ddiogel | 5 |
| Pen y dref yn San Helen ddim yn ddiogel | 5 |
| Llawer o feddwon a defnyddwyr cyffuriau yn yr ardal (Parc Victoria – 6) | 26 |
| Mae pobl yn dod o Abertawe gyfan i ddefnyddio Parc Victoria | 16 |
| Perygl pobl ddieithr | 10 |
| Rydym yn aros gartref /mynd i dai'n gilydd yn y gaeaf | 10 |
| Mae'r rhan fwyaf o'r parciau ar gyfer plant bach (o dan 8) | 4 |
| Rydym yn dod i chwarae pêl-droed (yn bennaf ym Mharc Victoria) | 20 |
| Rydym yn dod i sglefrolio (Parc Victoria) | 10 |
| Rydym yn dod i chwarae pêl-fasged (Parc Victoria) – does yr un lle arall | 6 |
| Rydym yn chwarae 'mob' | 6 |
| Rydym yn cael bod allan gyda'n gilydd tan 8.30 (grŵp o dan 10 oed) | 7 |
| Rydym yn teimlo'n ddiogel (am ein bod yn 'nabod y bobl iawn – 5) | 9 |

***A fyddech chi'n defnyddio'r iard a beth ddylai fod ynddo ar gyfer pobl ifanc?***

Sylwer bod 20 o bobl ifanc, yn bennaf ym Mharc Victoria, wedi dweud na fyddent yn ei ddefnyddio am eu bod yn byw mewn ardaloedd gwahanol ac y byddai'n rhy bell i gerdded yno. Roedd pob un o'r 20 yn meddwl ei fod yn syniad gwych ac o fudd i'r bobl ifanc sy'n byw yn ardal Sandfields. Dywedodd saith o bobl ifanc dros 16 oed na fyddent yn defnyddio'r iard am eu bod yn rhy hen ac yn mynd i'r dref gyda'r nos. Serch hynny, roedd y 7 yn meddwl y byddai'n beth da i'r 'plant ieuenga'. Mae hyn yn golygu bod yr awgrymiadau ynghylch beth i'w gynnwys mewn gofod i bobl ifanc wedi dod gan gyfanswm o 36 yn hytrach na 63.

| | |
|---|---|
| Ddim yn berthnasol i mi am fy mod i'n dod o'r tu allan i'r ardal, ond yn syniad da i bobl ifanc Sandfields | 20 |
| Fyddwn i ddim yn ei ddefnyddio am fy mod i'n rhy hen ac rwy'n mynd i'r dref gyda'r nos | 7 |
| Wedi dweud y byddai'n cael ei ddefnyddio (rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn gadarnhaol, dywedodd y rhan fwyaf beth byddent yn hoffi ei gael ond heb ddweud y byddent yn ei ddefnyddio) | 15 |
| Mae'n syniad gwych | 11 |
| Goleuadau fel y gallwn weld a theimlo'n ddiogel | 16 |
| Cysgodfan a lle i siarad gyda meinciau | 28 |
| Lle i feiciau a sgwteri | 6 |
| Rampiau i lafnrolio/sglefyrddio (yn sylweddoli efallai na fyddai hyn yn flaenoriaeth) | 15 |
| Marciau/ gêmau ar y ddaear | 6 |
| Siglenni (siglenni teiars – 5) | 11 |
| Cylch pêl-fasged (dim maes o angenrheidrwydd) | 22 |
| Gôl pêl-droed/rygbi (dim maes) | 27 |
| Wal ddringo | 4 |
| Lle gwyrdd / coed/ ffeuau | 11 |
| Llain griced | 5 |
| Pwll | 6 |
| Rhwyd tenis (ddim cwrt o angenrheidrwydd) | 2 |
| Caffi canabis | 5 |
| Ei agor i buteiniaid | 5 |

***A fyddai pob oed yn gallu ei ddefnyddio a sut gellid ei gadw'n ddiogel?***

Daw'r ymatebion hyn gan 36 o blant a phobl ifanc a gynigiodd sylwadau ar ddefnyddio'r iard, ac nid y 63 o blant a phobl ifanc y buom yn siarad â hwy i gyd.

| | |
|---|---|
| Bydd yn rhaid ei gloi i gadw fandaliaid a defnyddwyr cyffuriau allan (heb nodi amserau) | 13 |
| Dylid ei gloi am 9pm yn yr haf | 14 |
| Dylid ei gloi am 5pm yn y gaeaf | 13 |
| Dylai fod ar agor am y gwyliau cyfan | 5 |
| Bydd angen CCTV | 2 |
| Gall pob oed ei ddefnyddio | 10 |
| Mae'n rhaid i ni gadw'r rhai dros 16 oed allan | 2 |

# *Atodiad 4*

## *Tiroedd Ysgol San Helen a Pharth Cartrefi Stryd Vincent*

*Cynnig ar gyfer Adnoddau Cymunedol a Rennir*

## *DISGRIFIAD O'R GWAITH AC AMCANGYFRIFON O'R COSTAU*

*Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi disgrifiad o elfennau allweddol prosiect Tiroedd Ysgol San Helen a Pharth Cartrefi Stryd Vincent yn Abertawe.*

*Dylid cyfeirio at y disgrifiadau testun yng nghorff yr Adroddiad.*

*Nid yw'r costau a ddangosir yn dangos:-*

*Lwfansau am yr annisgwyl (tua 10%),*

*Ffioedd dylunio, costau tendro a rheoli adeiladu (15% fel arfer),*

*a*

*17.5% TAW.*

*Mae'r holl amcangyfrifon yn ddamcaniaethol iawn am eu bod yn dibynnu'n helaeth ar y manylion ac ansawdd y deunyddiau a ddefnyddir, yn ôl, er enghraifft, dewis y trigolion lleol, asiantaethau statudol a/neu'r awdurdod lleol.*

*Mae bras amcangyfrifon o gyfraddau dangosol ar gyfer elfennau amrywiol y prosiect wedi'u cyfrifo a'u tynnu o enghreifftiau o waith tebyg.*

*Bydd yr holl gostau'n cael eu hadolygu eto pan a phryd bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen a bod gwaith dylunio mwy manwl yn cael ei gwblhau.*

*Bydd angen sicrhau bod datblygiad y prosiect wedi'i gydlynu a bod y gymuned ehangach yn ei gefnogi.*

| EITEM | DISGRIFIAD O'R GWAITH | FAINT | CYFRADD (£) | COST (£) |
|---|---|---|---|---|
| | *Tiroedd yr Ysgol* | | | |
| *1.0* | ***Gwaith tir/dymchwel/cloddio*** | | | |
| *1.1* | *Gwneud y gwaith cloddio cychwynnol angenrheidiol i ostwng lefelau'r holl ardaloedd gwaith (fel a nodir yn y lluniad), gan gynnwys ailddosbarthu/gwaredu'r rwbel a symud deunyddiau diangen.* | *1050 m. sg* | *20/ m. sg.* | *21000* |
| *1.2* | *Mae'r uchod yn cynnwys cloddio yn ôl y galw, creu ffosydd ar gyfer draenio a rhychau gwasanaethau i ac o adeiladau'r ysgol (sylwer – costau'r gwasanaethau heb eu cynnwys).* | | | |
| *1.3* | *Dymchwel wal derfyn gerrig nadd yr ysgol a'r storfa finiau cyfagos er mwyn cadw a neilltuo 1/3 o'r cerrig nadd i'w hail ddefnyddio. [Caniatáu ar gyfer trwsio gwaith cerrig yr adeilad yn dilyn dymchwel y wal.]* | *75m* | *100/m* | *7500* |
| *2.0* | ***Arwynebau*** | | | |
| *2.1* | *Arwyneb tarmacadam lliw ar gyfer mannau chwarae/cicio pêl/gêmau'r iard chwarae* | | | |
| *2.2* | *Wynebau diogelwch o gwmpas offer (arwynebedd a dyfnder i'w pennu gan uchder disgyn critigol)* | | | |
| *2.3* | *Palmentu briciau/blociau i fannau cerdded lled-gyhoeddus* | | | |
| *2.4* | *Ardaloedd wynebau meddal, ee. Glaswellt, rhisgl, grut clwm i rannau diogel yr iard chwarae* | | | |
| *2.5* | *Yr holl arwynebau uchod yn cynnwys deunydd sylfaen addas, rampiau, goleddfau a rhediadau i sianelau ac ymylon.* | | | |
| | ***Is-gyfanswm*** | *1100 m. sg* | *100 / m. sg* | *110000* |
| *3.0* | ***Terfynau*** | | | |
| *3.1* | *Codi ffensio rhwyll caled 2.4m o uchder wedi'i gynnal ar byst dur ysgafn, i gynnwys paneli lliw a phatrymog yn ôl prosiectau celf disgyblion yr ysgol.* | *60m* | *450/m* | *27000* |
| *3.2* | *Adeiladu wal gerrig nadd isel (0.6m) gan gynnwys cerrig copa gwastad (gan ddefnyddio'r cerrig a gadwyd) gyda rheiliau isel addurnol ar hyd y top (cyfanswm 1.2m)* | *60m* | *500/m* | *30000* |
| *3.3* | *Gosod pâr o gatiau diogel iawn 2.4m o uchder y gellir eu cloi i gydweddu â'r ffensio uchel uwch ben* | *2* | *2500* | *5000* |
| *3.4* | *Gosod pâr o gatiau sy'n cau eu hunain i ffitio uwch ben y wal derfyn isel* | *2* | *1500* | *3000* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *4.0* | ***Cyfarpar*** | | | |
| *4.1* | *Gosod cyfarpar chwarae arbenigol cryf sy'n cydymffurfio â'r holl Safonau Diogelwch Ewropeaidd perthnasol (drwy ymgynghori pellach â disgyblion, staff a swyddogion yr ALl). e.e. chwarae tywod/dŵr, cyfarpar chwarae themâu/rôl, gêmau dringo/pêl.* | *6 mewn rhif* | *4000 yr un dyweder* | *24000* |
| *4.2* | *Gosod dodrefn sefydlog cryf addas i blant, i gynnwys byrddau a meinciau, pergola/cysgodfan ar gyfer gweithgareddau chwarae, cymysgu'n gymdeithasol ac ardal addysgu awyr agored* | *6 mewn nifer* | *1500 yr un* | *9000* |
| *5.0* | ***Ardaloedd arbenigol*** | | | |
| *5.1* | *Ystafelloedd dosbarth awyr agored - sy'n cynnwys seddau, pergola a phlanhigion cysgodol* | *3 mewn nifer* | *5000 yr un dyweder* | *15000* |
| *5.2* | *Gardd Natur a Phwll – i gynnwys coed brodorol a llwyni a phlanhigion ar hyd y ffiniau.* | | *dyweder* | *5000* |
| *5.3* | *Man gollwng a chodi/cyfarfod/aros i rieni – seddau, pergola a phlanhigion cysgodol* | | *dyweder* | *7500* |
| *6.0* | ***Planhigion*** | | | |
| *6.1* | *Gwelyau uchel – gwelyau pren ar gyfer llysiau/perlysiau* | *6 mewn nifer* | *500 yr un* | *3000* |
| *6.2* | *Plannu coed – wedi'u gosod yn ofalus ar gyfer cysgod a rhannu iard chwarae agored* | *4 mewn nifer* | *1000 yr un* | *4000* |
| *6.3* | *Perthi – rhywogaethau gwyrdd isel i rannu gofodau a meddalu ymylon gwyrdd* | *25 m dyweder* | *50/m* | *1250* |
| | ***Datblygu Iard Chwarae San Helen Is-gyfanswm*** | | ***£*** | ***272250*** |
| | ***Costau atodol, ffioedd a lwfansau eraill*** | | | |
| | *Argymhellir lwfansau am yr annisgwyl ac yswiriant ychwanegol ar gyfer unrhyw amodau safle/cymhlethdodau contract na ellir eu rhagweld yn ystod y gwaith adeiladu* | | *10%* | *27225* |
| | ***IS-GYFANSWM*** | | ***£*** | ***300000*** |
| | *Dylid caniatáu ar gyfer ffioedd proffesiynol i sicrhau cydymffurfio technegol, ansawdd y dylunio a gwerth am arian drwy drefniadau tendro cywir.* | | *10-15%* | *45000* |
| | ***IS-GYFANSWM*** | | ***£*** | ***345000*** |
| | *Mae'n debygol y bydd TAW yn berthnasol i'r rhan fwyaf os nad yr holl gostau os nad yw'r cleient neu'r gwaith wedi'u heithrio.*<br>*Felly, nid yw'r holl amcangyfrifon uchod yn cynnwys TAW, sef 17.5%* | | *10-15%* | *45000* |
| | ***CYFANSWM YR AMCANGYFRIF AR Y GYFER IARD YR YSGOL*** | | ***£*** | ***405500*** |

| EITEM | DISGRIFIAD O'R GWAITH | FAINT | CYFRADD (£) | COST (£) |
|---|---|---|---|---|
| | *Parth Cartrefi* | | | |
| *7.0* | ***Gwaith Cloddio a Dymchwel*** | | | |
| *7.1* | *Gwneud yr holl waith cloddio rhagbaratoi i ostwng lefelau'r holl ardaloedd gwaith yn Stryd Vincent (yn ôl y lluniad), gan gynnwys cael gwared ar y rwbel a symud deunyddiau diangen.* | | | |
| *7.2* | *Cloddio'r holl ffosydd angenrheidiol ar gyfer y draenio newydd a rhychau gwasanaethau yn y stryd (nodyn – costau gwasanaethau heb eu cynnwys)* | | | |
| *7.3* | *Paratoi'r is-sylfaen a gosod deunyddiau sylfaen cywasgedig i'r lefelau priodol gan gynnwys gorchudd concrid i'r sylfaen a deunyddiau gosod ar gyfer pafin blociau* | | | |
| | ***Is-gyfanswm*** | ***250m*** | ***500/m*** | ***125000*** |
| *8.0* | ***Arwynebu Strydoedd*** | | | |
| *8.1* | *Gosod pafin blociau i batrwm a'r math a bennir drwy ymarferoldeb dylunio* | | | |
| *8.2* | *Caniatáu ar gyfer peth arwynebedd tarmacadam, ee. parcio/cerbydau* | | | |
| *8.3* | *Ar gyfer y gofodau chwarae/gweithgareddau, caniatáu gosod rhisgl chwarae neu arwyneb diogelwch o gwmpas cyfarpar* | | | |
| *8.4* | *Gosod arwyneb grut clwm wedi'i rolio ar rai mannau cerdded ar gyfer gweithgareddau gwahanol* | | | |
| | ***Is-gyfanswm*** | ***250m*** | ***1000/m*** | ***250000*** |
| *9.0* | ***Dodrefn/Cyfarpar*** | | | |
| *9.1* | *Cyflenwi a gosod dodrefn dur a phren cryf yn ôl galw'r trigolion, e.e meinciau, byrddau picnic, etc.* | *4*<br>*2* | *750 yr un*<br>*1500 yr un* | *6000* |
| *9.2* | *Cyfarpar chwarae i blant bach, e.e. tŷ chwarae, anifeiliaid sbring, i'w pennu* | *3* | *2500 yr un* | *7500* |
| *9.3* | *Pergolas/cysgodfan ar gyfer cysgod i'r seddau a'r chwarae.* | *3* | *2500* | *7500* |
| *10.0* | ***Plannu*** | | | |
| *10.1* | *Caniatáu ar gyfer plannu coed boncyff clir safonol trwm iawn, e.e. ceirios, cerddinen, cerddinen wen, gan gynnwys system angori a draenio gwreiddiau dwfn, griliau a gardiau* | *24* | *1000 yr un* | *24000* |
| *10.2* | *Gerddi blaen newydd y tu ôl i rheiliau dur 900m o uchder, gan gynnwys gât gardd* | *25* | *2500 yr un* | *31250* |
| | ***Parth Cartrefi Stryd Vincent IS-GYFANSWM*** | | ***£*** | ***451250*** |

| EITEM | DISGRIFIAD O'R GWAITH | FAINT | CYFRADD (£) | COST (£) |
|---|---|---|---|---|
| | *Is-gyfanswm o'r dudalen flaenorol* | | **£** | **451250** |
| | **Costau atodol, ffioedd a lwfansau eraill** | | | |
| | *Argymhellir lwfansau am yr annisgwyl ac yswiriant ychwanegol ar gyfer unrhyw amodau safle/cymhlethdodau cytundeb na ellir eu rhagweld yn ystod y gwaith adeiladu* | | *10%* | *45125* |
| | **IS-GYFANSWM** | | **£** | **45125** |
| | *Dylid caniatáu ar gyfer ffioedd proffesiynol i sicrhau cydymffurfio technegol, ansawdd y dylunio a gwerth am arian drwy drefniadau tendro cywir.* | | *10%* | *45125* |
| | **IS-GYFANSWM** | | **£** | **496500** |
| | *Mae'n debygol y bydd TAW yn berthnasol i'r rhan fwyaf os nad yr holl gostau os nad yw'r cleient neu'r gwaith wedi'u heithrio.*<br>*Felly, nid yw'r holl amcangyfrifon uchod yn cynnwys TAW, sef 17.5%* | | *17.5%* | *100000* |
| | **CYFANSWM YR AMCANGYFRIF AR GYFER PARTH CARTREFI STRYD VINCENT** | | **£** | **671000** |

Partneriaeth Plant 0-10
Dinas a Sir Abertawe
Uned B3 Ger-y-llyn
Ffordd y Ffenics
Llansamlet, Abertawe
SA7 9FL

Ffôn: 01792 612155
Ffacs: 01792 612159
www.swansea.gov.uk

Cymunedau'n Gyntaf y Castell
3ydd Llawr,
10 Heol San Helen
Abertawe
SA1 4AW

Ffôn: 01792 476812
Ffacs: 01792 476804
Claire.snell@swansea.gov.uk

Barnado's Cymru
Swyddfa De-orllewin Cymru
Swyddfeydd Uchaf
11 Stryd y Coleg
Abertawe SA1 5AF

Ffôn: 01792 463357
www.barnados.org.uk

Sylfaen Cynefin
8 Salubrious Passage
Abertawe
SA1 3RT

Ffôn: 01792 64 64 67
communities@sylfaencynefin.org.uk
www.sylfaencynefin.org.uk